# PRIF GWNSTABL GWENT

# DATGANIAD CYFRIFON

## 2023 | 2024

# CHIEF CONSTABLE FOR GWENT

# STATEMENT OF ACCOUNTS

## 2023 | 2024



2732_01

## Cynnwys


**Adroddiad Naratif** ... 3

**Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol** ... 8

**Datganiad o Gyfrifoldebau** ... 11

**Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant** ... 12

**Mantolen** ... 13

**Cyfrif Pensiynau'r Heddlu** ... 14

**Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y Prif Gwnstabl** ... 16

**Nodyn 1-Polisïau Cyfrifo** ... 16

**Nodyn 2 - Safonau Cyfrifyddu sydd wedi'u cyhoeddi ond nad ydynt wedi'u mabwysiadu eto** ... 19

**Nodyn 3 - Dyfarniadau critigol wrth gyflwyno polisïau cyfrifyddu** ... 19

**Nodyn 4 - Rhagdybiaethau a wnaed am ffynonellau ansicrwydd amcangyfrifon y dyfodol, a ffynonellau ansicrwydd amcangyfrifon eraill** ... 20

**Nodyn 5 -Eitemau Incwm a Gwariant Perthnasol** ... 20

**Nodyn 6 -Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen** ... 20

**Nodyn 7 - Incwm a Gwariant Cyllid a Buddsoddi** ... 20

**Nodyn 8 - Addasiadau Rhyng-grŵp** ... 21

**Nodyn 9 – Rhestrau Eiddo** ... 22

**Nodyn 10 - Credydwyr** ... 22

**Nodyn 11 – Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill** ... 23

**Nodyn 12 - Lwfansau Aelodau** ... 23

**Nodyn 13 -Tâl Swyddogion Heddlu a Staff Heddlu** ... 24

**Nodyn 14 - Buddion Terfynu Swydd** ... 28

**Nodyn 15 - Costau Archwilio Allanol** ... 29

**Nodyn 16 - Partïon Cysylltiedig** ... 30

**Nodyn 17- Cynllun Pensiwn Buddion Diffiniedig** ... 31

**Nodyn 18 - Asedau a Rhwymedigaethau Amodol** ... 36

**Nodyn 19 – Cydweithio** ... 37

**Nodyn 20 - Ymddiriedolaeth Ffilm Annibynnol Gwent (GIFT)** ... 39

**Geirfa** ... 40

# Adroddiad Naratif

**Cyflwyniad**

Diben y Datganiad Cyfrifon yw darparu gwybodaeth am sefyllfa ariannol, perfformiad, atebolrwydd rheoli o ran adnoddau, risgiau ac ansicrwydd Prif Gwnstabl Gwent (y Prif Gwnstabl) sy'n ddefnyddiol i ystod eang o ddefnyddwyr. Gallai defnyddwyr y datganiadau ariannol gynnwys y cyhoedd, y Llywodraeth, cyrff sy'n dyfarnu grantiau, gweithwyr, cwsmeriaid, cyflenwyr a chontractwyr.

Mae atebolrwydd am adnoddau cyhoeddus a rolau a chyfrifoldebau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent (y Comisiynydd) a'r Prif Gwnstabl a nodir mewn statud yn cael eu dogfennu yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Ar y Cyd. Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl hefyd wedi'i nodi yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Ar y Cyd, a gyhoeddir ar wahân ochr yn ochr â'r Datganiad Cyfrifon.

**Fframwaith Statudol ar gyfer y Datganiadau Ariannol**

Sefydlodd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (PRSRA) bob Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a Phrif Gwnstabl yn y gyfraith fel 'corfforaeth undyn' - endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u personoliaeth gyfreithiol eu hunain. Mae'n ofynnol i bob corfforaeth undyn lunio ei Datganiad Cyfrifon endid unigol ei hun, ac mae'r Comisiynydd hefyd yn llunio Datganiad Cyfrifon ar gyfer y Grŵp (Grŵp y PCC) a Chronfa Bensiwn yr Heddlu. Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am gyllid Grŵp y PCC ac mae’n rheoli'r holl asedau, ni waeth a ydynt yn cael eu defnyddio gan y Comisiynydd, yr Heddlu neu'r ddau endid. Hefyd, mae’r Comisiynydd yn gyfrifol am ariannu rhwymedigaethau pensiwn, yn y tymor byr a'r hirdymor. Y Comisiynydd sy'n derbyn yr holl incwm a chyllid, gan gynnwys grant a phraesept y llywodraeth a ffynonellau incwm eraill, sy'n ymwneud â phlismona a lleihau trosedd a rhaid i'r holl gyllid ar gyfer yr heddlu ddod trwy gyfrwng y Comisiynydd. Yn ei thro, mae'r Prif Gwnstabl yn cyflawni ei swyddogaethau o dan y PRSRA ar sail cyllideb ddirprwyedig flynyddol, a bennir gan y Comisiynydd mewn ymgynghoriad â'r Prif Gwnstabl.

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff Llywodraeth Leol baratoi Datganiad Cyfrifon yn unol ag arferion priodol. Mae Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol (y Cod) y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) yn cynrychioli arferion priodol.

Mae'r Cod yn berthnasol i gyrff Llywodraeth Leol a nodir yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 y mae'n ofynnol iddynt baratoi cyfrifon i'w harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Diwygiwyd adran 12 o'r Ddeddf hon gan y PRSRA i ddisodli'r cyfeiriad at Awdurdodau Heddlu â Chomisiynwyr a Phrif Gwnstabliaid.

Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol baratoi eu Datganiadau Ariannol yn unol â Fframwaith y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) ar gyfer Paratoi a Chyflwyno Datganiadau Ariannol (Fframwaith IASB) fel y’i dehonglir gan y Cod. Mae Fframwaith yr IASB yn nodi'r cysyniadau sy'n sylfaen i'r gwaith o baratoi a chyflwyno datganiadau ariannol ar gyfer defnyddwyr allanol y cyfrifon. Mae'r Datganiad Cyfrifon yn parhau i ddilyn y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

**Datganiad Cyfrifon**

Mae Datganiad Cyfrifon y Prif Gwnstabl ar gyfer y flwyddyn ariannol sy’n dod i ben 31 Mawrth 2023, yn unol â'r Cod yn y Deyrnas Unedig 2022/23, yn cynnwys:

- **Adroddiad Naratif** – sy'n cynnwys cyflwyniad i'r Datganiad Cyfrifon ac yn amlygu materion arwyddocaol a nodwyd yn y Cyfrifon;

- **Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol** – sy'n cadarnhau barn yr archwilydd ynglŷn ag a yw’r datganiadau cyfrifyddu yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Prif Gwnstabl, a'u bod wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod;

- **Datganiad o Gyfrifoldebau** - sy'n nodi cyfrifoldebau'r Prif Gwnstabl a'r Prif Swyddog Cynorthwyol - Adnoddau mewn perthynas â'r Datganiad Cyfrifon;

- **Datganiadau Ariannol:**

  - **Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant (CIES**) – Mae hwn yn dangos cost cyfrifyddu yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) yn hytrach na'r swm a ariennir o grantiau a threthi'r Llywodraeth;

  - **Mantolen –** Mae hon yn dangos gwerth asedau, rhwymedigaethau a chronfeydd wrth gefn (gwerth net) y Prif Gwnstabl ar 31 Mawrth 2023;

- **Cyfrif Pensiynau'r Heddlu** - Mae hwn yn darparu gwybodaeth am drafodion ariannol Cynlluniau Pensiwn yr Heddlu. Yn ôl deddfwriaeth (Rheoliadau Cronfeydd Pensiwn yr Heddlu 2007), mae'n rhaid i bob Prif Gwnstabl unigol weithredu Cronfa Bensiwn gan ddefnyddio arian a ddarparwyd gan y Comisiynydd; a

- **Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol** – Mae'r rhain yn darparu dadansoddiad ac esboniadau pellach o eitemau incwm, gwariant, asedau a rhwymedigaethau o fewn y prif ddatganiadau cyfrifyddu a nodir uchod.

Ni chyflwynir Dadansoddiad o Wariant a Chyllid ar wahân ar gyfer y Prif Gwnstabl gan y byddai'n rhoi darlun anghyflawn o'r datgeliadau gofynnol. Cyflwynir Dadansoddiad o Wariant a Chyllid y Grŵp ar dudalen 11 Datganiadau Ariannol Grŵp Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent (Grŵp y PCC) ac mae'n dangos y dadansoddiad cyflawn fel sy'n ofynnol. Nid yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn gan mai eiddo'r Comisiynydd yw'r holl gronfeydd wrth gefn. Yn yr un modd, nid yw'r Prif Gwnstabl yn dal unrhyw arian parod ac felly nid oes Datganiad Llif Arian Parod yn Natganiad o Gyfrifon y Prif Gwnstabl.

**Perfformiad Ariannol y Prif Gwnstabl**
Mae'r crynodeb canlynol yn rhoi trosolwg o sefyllfa ariannol a pherfformiad Heddlu Gwent ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2023.

**Incwm a Gwariant Refeniw**
Cymeradwywyd y gofyniad cyllideb refeniw net ar gyfer y flwyddyn, sef £156.427 miliwn, gan y Comisiynydd ar 22 Chwefror 2022. Ar ôl ystyried Grant y Swyddfa Gartref gwerth £62.343 miliwn, y Grant Cynnal Refeniw gwerth £25.727 miliwn a'r Ardrethi Annomestig Cenedlaethol gwerth £0.212 miliwn, y swm i'w gasglu o'r Dreth Gyngor oedd £68.145 miliwn. Gwariwyd y mwyafrif o'r gyllideb gros hon ar wasanaethau plismona dan gyfarwyddyd a rheolaeth y Prif Gwnstabl ac mae'n hafal i gyllideb Grŵp Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (Grŵp y PCC) llai cost gweinyddu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Mae'r CIES yn dangos cost gwasanaethau plismona o £194.530 miliwn (2021/22: £186.299 miliwn). Mae addasu'r ffigur hwn ar gyfer costau corfforaethol, newidiadau mewn rhwymedigaethau pensiwn yn y dyfodol a dyraniadau a chyfraniadau wedi'u heithrio o gost gwasanaethau yn cynhyrchu cyfanswm gwariant gweithredol i'r Prif Gwnstabl am y flwyddyn o £239.944 miliwn (2021/22: £220.004 miliwn). Mae cyfanswm y gwariant gweithredol yn cael ei ariannu'n llawn gan y Comisiynydd trwy drosglwyddiad rhyng-grŵp, gan adael balans £dim yng nghyfrifon y Prif Gwnstabl.

Perfformiad sylfaenol Grŵp y PCC ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023, y mae'r Prif Gwnstabl yn rhan ohono, cyn yr holl addasiadau statudol ac addasiadau seiliedig ar gyllid, oedd mantoli'r gyllideb. Deilliodd y sefyllfa hon o'r arbedion rheolaidd a ragwelwyd trwy gyflymu cynlluniau effeithlonrwydd trwy gyfrwng Rhaglen Gwella Gwasanaethau'r Heddlu a lleihau gwariant yn erbyn cyllidebau a arweinir gan alw.

Mae'r gwarged hwn wedi cael ei drosglwyddo i Gronfeydd Wrth Gefn Wedi'u Clustnodi, sy'n eiddo i ac yn cael eu rheoli gan y Comisiynydd ac a ddatgelir yn Natganiad o Gyfrifon Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a Grŵp y PCC.

**Rhwymedigaeth pensiynau**
Mae'r Cynllun Pensiwn ar gyfer Swyddogion yr Heddlu yn gynllun heb ei ariannu. Mae Adran Actiwari'r Llywodraeth yn cyfrifo rhwymedigaeth bosibl cynlluniau'r Heddlu yn seiliedig ar adolygiad actiwaraidd, gan ddefnyddio data pensiwn a chyflogres. O safbwynt Staff yr Heddlu, mae Heddlu Gwent yn gorff sydd wedi'i dderbyn i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen), sy'n gynllun a ariennir.

Mesurir effaith y cynnydd yn rhwymedigaethau'r cynllun o ganlyniad i ddyfarniad McCloud/Sargeant ar sail hawliadau o wahaniaethu anghyfreithlon yn deillio o Ddarpariaethau Trosiannol Rheoliadau Pensiwn yr Heddlu 2015 trwy'r broses o brisio pensiynau, sy'n pennu cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr a gweithwyr cyflogedig. Roedd prisiad nesaf Pensiwn yr Heddlu i fod i gael ei gynnal yn 2020 er mwyn gweithredu'r canlyniadau yn 2023/24. Caiff effaith cynnydd mewn taliadau pensiwn blynyddol sy'n deillio o ddyfarniad achos McCloud / Sargeant ei phennu trwy Reoliadau Cronfa Bensiwn yr Heddlu 2007. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd gynnal cronfa bensiwn yr heddlu sy'n derbyn cyfraniadau gan swyddogion a'r cyflogwr ac yn gwneud taliadau pensiwn i swyddogion sydd wedi ymddeol. Os nad oes gan gronfa bensiwn yr heddlu ddigon o arian i dalu costau pensiynau yn ystod y flwyddyn, bydd y swm sy'n ofynnol i dalu'r diffyg yn cael ei dalu gan yr Ysgrifennydd Gwladol i'r Comisiynydd ar ffurf grant atodol gan y Llywodraeth ganolog. Mae'r amcan o effaith dyfarniad McCloud/Sargeant wedi cael ei adlewyrchu yn y costau gwasanaeth yn y gorffennol, rhwymedigaethau tybiannol y cynllun a datgeliadau IAS19 y ddau gynllun pensiwn ers 2019/20.

Mae'r amcan o rwymedigaethau net ar gyfer y ddau gynllun wedi gostwng yn ystod y flwyddyn o £1,710 miliwn i £1,115 miliwn, gostyngiad o 34.8%, yn bennaf oherwydd newidiadau mewn rhagdybiaethau actiwaraidd. Nid yw'r colledion neu enillion net nas gwireddwyd ar y ddau gynllun yn cael effaith uniongyrchol ar gost gwasanaethau yn y datganiad cynhwysfawr o incwm a gwariant a chydnabyddir y rhwymedigaeth dybiannol yn y fantolen yn unig.

Yn dilyn ail brisiad o bensiynau'r sector cyhoeddus, yn wreiddiol roedd heddluoedd yn wynebu cynnydd mewn costau pensiynau swyddogion heddlu o ryw £330 miliwn y flwyddyn o 2019/20 ymlaen. Fel rhan o Brisiad Pensiwn 2016, mae Trysorlys EM wedi cyhoeddi 'Cyfarwyddiadau' Prisio Pensiynau Sector Cyhoeddus, gyda'r nod o gynyddu Cyfraniadau'r Cyflogwr o 2019/20 ar gyfer Cynlluniau Pensiwn Sector Cyhoeddus (gan gynnwys Cynllun Pensiwn yr Heddlu). Y prif newid yw'r gostyngiad i'r 'gyfradd ddisgownt', a ddefnyddir i drosi taliadau pensiwn y dyfodol i werth taliadau pensiwn heddiw. Mae'r gyfradd yn adlewyrchu barn Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol am y rhagolwg economaidd cenedlaethol a oedd, yn ei dro, yn adlewyrchu cyfnod arbennig o ansicr cyn Brexit. Ar y pryd roedd diffyg cyffredinol o arian gan y Llywodraeth o ryw £13 miliwn yn genedlaethol. Fodd bynnag, gan fod swyddogion a staff heddlu wedi derbyn dyfarniad cyflog 2.5% ym mis Medi 2020, a gan fod nifer sylweddol o swyddogion Heddlu Gwent yn newydd i'r Gwasanaeth Heddlu ac felly'n derbyn cyflog cynyddrannol, mae'r diffyg amcangyfrifedig yn y pensiwn (gan gymryd grant pensiwn arian gwastad) wedi codi £0.761 i £2.464 miliwn ar gyfer 2022/23 a £1.043 miliwn pellach i £3.507 miliwn ar gyfer 2023/24. Bydd y diffyg hwn yn cael ei dalu o gyfraniad o gronfeydd wrth gefn ac arian wedi'i neilltuo ac nid o Braesept Y Dreth Gyngor yn 2022/23. Rydym wedi cymryd yn y rhagolygon ar gyfer y blynyddoedd i ddod y bydd y Pensiwn Grant Penodol yn cael ei ddarparu'n rheolaidd i dalu'r costau pensiwn rheolaidd, ond nid oes sicrwydd o hyn eto.

**Edrych Ymlaen**

Wrth symud ymlaen mae nifer o broblemau cyllid tymor hirach y mae angen rhoi sylw iddynt yn rhan o'r broses Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer y cyfnod pum mlynedd o 2023/24 i 2027/28. Mae'r rhain yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

- Digwyddiadau byd eang a goblygiadau tymor hirach Covid-19;
- Chwyddiant a'r argyfwng costau byw cenedlaethol, yn arbennig cost ynni;
- Newidiadau i Fformiwla Ariannu'r Heddlu;
- Cynnal niferoedd swyddogion heddlu dan y Rhaglen Uplift ac ariannu parhaus ar gyfer swyddogion cefnogi cymuned;
- Cyflawni plismona cynaliadwy trwy dechnoleg, cludiant a seilwaith; a
- Cyflawni strategaeth cynaliadwyedd "Gwent Wyrddach".

Mae'r Setliad Plismona Terfynol a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref yn Ionawr 2022/23 yn cynrychioli ail flwyddyn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021 (CSR 2021). Oherwydd digwyddiadau byd eang, mae'r effaith ar economi'r DU wedi golygu cyllidebau mwy llym i blismona na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. Er bod lefel ychwanegol hyblygrwydd o ran y Dreth Gyngor a chadarnhad y gellir disgwyl cyllid Rhaglen Uplift ar gyfer swyddogion ychwanegol, ychydig iawn o gyllid ychwanegol sydd ar gael o hyd gan y Llywodraeth ar gyfer y sector. Mae hyn yn mynd a ni yn ôl i gyllid arian gwastad a'r angen i heddluoedd reoli pwysau chwyddiannol o fewn cyllidebau lleol. Mae'r flwyddyn olaf o Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant tair blynedd 2021 yn debygol o adlewyrchu'r un sefyllfa a gallai fod yn fwy llym os na cheir adferiad economaidd neu os bydd blaenoriaethau'r Llywodraeth yn newid. Yn gryno, mae'r Setliad Terfynol yn barhad o raglenni presennol yn erbyn cefnlen o arian gwastad i raddau helaeth. Mae'r cynnydd cyfyngedig yng Nghyllid Grant y Llywodraeth Ganolog yn 2023/24 wedi'i neilltuo'n bennaf ar gyfer darparu nifer penodol o swyddi Swyddogion Heddlu newydd a'u costau canlyniadol cysylltiedig, a rhan o'r ffordd yn unig y mae'r Cyllid Grant Llywodraeth Ganolog sy'n weddill yn mynd tuag at gyflawni penderfyniadau polisi cenedlaethol fel y diffyg mewn cyllid pensiwn. Felly, mae unioni dadfuddsoddi blaenorol mewn termau real yn y Gwasanaeth gan y Llywodraeth ac ateb pwysau bob dydd yn y dyfodol megis dyfarniadau cyflog a chwyddiant; pwysau gwasanaeth newydd i ymdrin â throseddau mwy cymhleth; a chynnydd anochel mewn costau yn dibynnu ar sicrhau arbedion effeithlonrwydd arian parod yn lleol neu Braesept y Dreth Gyngor.

Mae ansicrwydd Brexit ers 2016, ynghyd â'r adferiad tymor hirach yn dilyn y pandemig Covid-19 a digwyddiadau byd eang fel y rhyfel yn Wcráin, wedi golygu heriau ariannol ychwanegol, yn arbennig mewn cysylltiad â phwysau chwyddiannol ar gyllidebau tâl a chyllidebau eraill. Gan hynny, ychydig iawn o gynnydd mewn cyllid Plismona gan y Llywodraeth ganolog sydd i'w ddisgwyl yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Bydd gofyn i'r Heddlu wneud arbedion ychwanegol sylweddol i liniaru effeithiau dechreuol a hirdymor costau uwch yn sgil rhagamcanion o lefel chwyddiant uwch o dros 7% a dyfarniadau cyflog ymhell dros 3% yn 2023/24. Mae hyn wedi effeithio ar gostau refeniw a'r rhaglen gwariant cyfalaf, gyda chwyddiant yn cynyddu cyllidebau ar gyfer gwaith adeiladu a buddsoddiad TGCh yn sylweddol, yn ogystal ag ychwanegu miliynau o bunnau o bwysau ariannol at gyllidebau plismona yng Ngwent.

Roedd CSR 2021 yn dawel ynghylch adolygiad y Swyddfa Gartref o Fformiwla Ariannu'r Heddlu sy'n parhau i roi ansicrwydd ariannol ychwanegol yn y dyfodol hyd at 2026/27. I roi'r cefndir, ar ôl i'r Swyddfa Gartref bennu maint cyffredinol y gyllideb blismona (trwy'r broses Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant/Cylch Gwariant), mae Fformiwla Ariannu'r Heddlu yn pennu lefel y cyllid a ddarperir i bob Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae'r fformiwla bresennol yn hen, yn rhy gymhleth, yn anodd ei deall ac mae angen ei hadolygu. Ar ôl i'r broses adolygu rhwng 2015 a 2020 'gam-gychwyn' sawl gwaith o ganlyniad i drafodaethau Brexit, Etholiadau Cyffredinol 'sydyn' yn 2017 a 2019, a'r cynnydd sylweddol ym mygythiad terfysgaeth, gohiriwyd y gweithredu. Fodd bynnag, ar ddiwedd haf 2021, ail-gychwynnodd yr adolygiad gyda thrylwyredd academaidd sylweddol; strwythur llywodraethu cadarn; ac amserlen heriol yn y misoedd cynnar. Disgwylir cwblhau a chymeradwyo erbyn mis Rhagfyr 2024 fan bellaf, a'r gweithredu cysylltiedig o flwyddyn ariannol 2025/26 ymlaen. Mae risgiau i gyllid y llywodraeth ganolog ar gyfer yr Heddlu a'r Comisiynydd o 2025/26 ymlaen, ac mae'r rhain wedi cael eu cynnwys yn y rhagdybiaethau yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Mae'r Swyddfa Gartref yn parhau i ddarparu'n rhannol y modd ariannol i gyflawni addewid y Prif Weinidog i recriwtio 20,000 o swyddogion heddlu ychwanegol erbyn 31 Mawrth 2023. Dechreuodd cynlluniau recriwtio swyddogion heddlu fel rhan o Raglen Uplift o ddifrif tua diwedd 2019/20, ac mae'r Heddlu wedi cyrraedd ei darged lleol o swyddogion heddlu ychwanegol (1,506 wte) yng Ngwent erbyn 31 Mawrth 2023. Yn bwysig, mae arian ychwanegol wedi'i ddarparu ar gyfer y seilwaith cysylltiedig sydd ei angen i sicrhau bod y Swyddogion Heddlu newydd hynny mor effeithiol â phosibl. Yn ogystal, mae ymrwymiad maniffesto Llafur Cymru i sicrhau bod 100 yn fwy o Swyddogion Cefnogi Cymuned yng Nghymru wedi'i roi ar waith yn 2021/22. Mae hyn yn cyfateb i 20 o Swyddogion Cefnogi Cymuned yr Heddlu wte ar ben y 101 wte a ariennir eisoes gan Lywodraeth Cymru. Amcangyfrifir mai £4.556 miliwn yw swm y cyllid ar gyfer 2022/23 ar gyfer y 121 wte. Daeth ymrwymiad y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i gael 10 Swyddog Cefnogi Cymuned yr Heddlu ychwanegol â chyfanswm y Swyddogion Cefnogi Cymuned a ariennir yng Ngwent i 172 wte ar gyfer 2022/23. Wrth symud ymlaen, mae'r cyllid gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei leihau i £3.945m ar gyfer 2023/24, gan roi pwysau sylweddol ar gyllid lleol os yw'r Comisiynydd a'r Heddlu am gynnal y lefel presennol o 172 wte o swyddogion cefnogi cymuned ac mae'n codi cwestiynau ynglŷn â fforddiadwyedd twf arfaethedig ar gyfer y dyfodol.

Dros gyfnod pum mlynedd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, ceir ansicrwydd lleol ychwanegol, gan gynnwys y twf yng nghostau seilwaith TGCh cenedlaethol yn y dyfodol; effaith Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru yng Ngwesty'r Celtic Manor ar blismona; ac ariannu Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu. Yn ogystal, mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn parhau i fuddsoddi yng ngofynion cyfalaf yr Heddlu trwy gerbydau newydd, ystâd fodern, a thechnoleg gwybodaeth a fydd yn galluogi swyddogion a staff i ddarparu gwasanaethau mwy effeithiol ac effeithlon. Mae'r rhaglen gyfalaf hefyd yn cynnwys cyflawni strategaeth cynaliadwyedd "Gwent Wyrddach", gyda buddsoddiad clir mewn cerbydau trydan a phaneli solar i leihau ôl troed carbon yr Heddlu. Mae'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2023/24 yn parhau i fod yn sylweddol ar £23.9 miliwn a bydd yn cael ei gyllido'n rhannol o gyfraniadau cyllideb refeniw a chronfeydd wrth gefn. Bydd gweddill y cyllid ar gyfer y rhaglen gyfalaf yn dod yn gynyddol o fenthyca hirdymor, gan gynyddu pwysau cyllidebol gan gostau cyllido a llog yn y blynyddoedd i ddod, a thrwy hynny, gwestiynu fforddiadwyedd a chynaliadwyedd buddsoddiad pellach yn y Rhaglen Gyfalaf.

Ar y pryd, roedd y pwysau a'r datblygiadau gwasanaeth a gydnabuwyd yn gyson â'r rhai a nodwyd mewn blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae angen i'r Heddlu barhau i sicrhau ei fod mewn sefyllfa i gyflawni Cynllun Heddlu a Throsedd y Comisiynydd 2021-2025, Cynllun Gorchfygu Trosedd y Llywodraeth a Gweledigaeth Blismona 2025; a'r cyfan o fewn cyd-destun cyfyngiadau ariannol; pwysau cynyddol na ellir eu hosgoi ar wasanaethau; Plismona mathau mwy cymhleth o droseddau; a Phlismona yn yr oes ddigidol. Yn benodol, mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cefnogi'r gwaith o gyflawni prif flaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throsedd yng Ngwent tan 2025, sef:

- Cadw cymdogaethau'n ddiogel;
- Brwydro yn erbyn Troseddau Difrifol;
- Rhoi Cymorth i Ddioddefwyr ac Amddiffyn Pobl Agored i Niwed;
- Cynyddu Hyder y Gymuned mewn Plismona; ac
- Ysgogi plismona cynaliadwy.

Yn wyneb y pwysau hwn, mae Heddlu Gwent yn parhau i ymateb yn rhagweithiol i raglen gyni'r Llywodraeth, trwy geisio rhoi sylw i ofynion effeithlonrwydd y Swyddfa Gartref, gwella ei wasanaeth trwy newid trawsnewidiol, i fodloni galw presennol ac yn y dyfodol a chyflawni arbedion effeithlonrwydd. Fel rhan o CSR 2021, bydd y Llywodraeth yn disgwyl gweld dros £100 miliwn o arbedion effeithlonrwydd arian parod o gyllidebau heddluoedd erbyn 2024/25. Hyd at ddiwedd 2022/23 felly, mae Heddlu Gwent wedi sicrhau arbedion cylchol cronnol y gellir eu troi yn arian parod gwerth £53.772 miliwn. Cyflawnwyd hyn diolch i lwyddiant parhaol y Cynllun Gwella Parhaus (rhaglen Aros ar y Blaen gynt); sydd wedi dod yn fusnes craidd yr Heddlu o fewn yr Adran Gwella Parhaus dros y blynyddoedd diwethaf. Hefyd, mae Proffiliau Gwerth am Arian Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) yn ddull allweddol o nodi meysydd posibl ar gyfer cyfleoedd cynlluniau arbed arian.

Ar ôl ystyried Setliad Terfynol 2023/24; effaith amcangfrifedig yr adolygiad o Fformiwla Ariannu'r Heddlu; cost benthyca hirdymor; a phwysau ariannol pellach, ym mis Mawrth 2023, ar ddiwedd cylch pennu cyllideb 2023/24 ac ar ôl cyflawni £1.142 miliwn arall o arbedion ynghyd â symudiadau eraill mewn arian wrth gefn, cyflwynodd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP) gyllideb gytbwys ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24. Fodd bynnag, nid yw lefel y cronfeydd wrth gefn gofynnol i gyflawni'r mantoli hwn yn gynaliadwy a rhagwelwyd mai'r diffyg cyllid cylchol ar gyfer 2027/28 fyddai £24.791 miliwn. Hyd yn oed ar ôl arbedion hysbys mae diffyg cyllid net o hyd ar ôl arbedion o £20.887 miliwn erbyn 2027/28. Felly mae gwaith sylweddol yn mynd rhagddo yn 2023/24 i ganfod arbedion cylchol ychwanegol i fodloni pwysau o ddydd i ddydd fel dyfarniadau tal a chwyddiant; pwysau gwasanaeth newydd i ymdrin â throseddau mwy cymhleth; a chynnydd anochel mewn costau yn dibynnu ar sicrhau arbedion effeithlonrwydd mewn mannau eraill neu Braesept y Dreth Gyngor.

Mae'n amlwg, ar yr union adeg pan oedd plismona'n teimlo ei fod yn rhydd rhag cyni'r deng mlynedd diwethaf a bod buddsoddiad mewn plismona'n cael ei ystyried unwaith eto, bod Heddlu Gwent yn wynebu cyfnod sylweddol o ansicrwydd ariannol yn awr. Serch hynny, mae gan Heddlu Gwent hanes cadarn o weithredu o fewn cyfyngiadau ariannol ac felly bydd yn parhau i reoli lleihad mewn cyllid mewn termau real gan y Llywodraeth a chyhoedd Gwent, trwy gydol cyfnod y Rhagamcan Ariannol Tymor Canolig. Bydd y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn parhau i ganolbwyntio ar gyflwyno cenhedlaeth newydd o gynlluniau arbedion a chynnal amserlen fanwl o waith cynlluniedig i adolygu swyddogaethau ac adrannau; wedi'i gydbwyso yn erbyn anghenion plismona gweithredol Gwent.

**Llofnod:**

**Nigel Stephens CIPFA**
**Prif Swyddog Cynorthwyol Adnoddau**
**Dyddiad:27 Tachwedd 2023**

# Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol

Adroddiad Archwilydd Annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer Prif Gwnstabl Gwent

**Barn ynghylch y datganiadau ariannol**

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol:

- Prif Gwnstabl Gwent; a
- Chronfa Bensiwn Heddlu Gwent

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Prif Gwnstabl Heddlu Gwent yn cynnwys y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant, y Fantolen a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Heddlu Gwent yn cynnwys Cyfrif y Gronfa, y Datganiad am Asedau Net a'r nodiadau cysylltiedig

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith gymwys a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglir a'u haddasir gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022-23.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Prif Gwnstabl Heddlu Gwent a Chronfa Bensiwn Heddlu Gwent ar 31 Mawrth 2023 ac incwm a gwariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a

- maent wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglir a'u haddasir gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022-23.

**Sylfaen ar gyfer barn**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hyn wedi'u disgrifio ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio adran datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar Brif Gwnstabl Heddlu Gwent yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi dod o hyd iddi yn ddigonol ac yn briodol i roi sylfaen i'm barn.

**Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol**

Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon, rwyf wedi casglu bod defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol yn briodol ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi ei gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau nac amodau, unigol neu gyda'i gilydd, a allai fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Prif Gwnstabl Heddlu Gwent a Chronfa Bensiwn Heddlu Gwent i barhau i fabwysiadu sail cyfrifyddu busnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad y caiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Mae fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol yn cael eu disgrifio yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

**Gwybodaeth arall**

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilio arnynt. Mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir fel arall yn ddiweddarach yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ynglŷn â hynny.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos yn anghywir sy'n seiliedig ar, neu'n anghyson â'r wybodaeth y des o hyd iddi wrth gwblhau'r archwiliad. Os byddaf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, byddaf yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad. Os byddaf, yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi ei wneud, yn casglu bod camddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad mewn perthynas â hynny.

Nid oes gennyf unrhyw beth i gyflwyno adroddiad arno mewn perthynas â hyn.

## Adroddiad ar ofynion eraill

### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoir y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol, ac mae'r Adroddiad Naratif wedi'i baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022/23;
- Mae'r wybodaeth a roddir yn Natganiad Llywodraethu ar y Cyd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent a Phrif Gwnstabl Gwent ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoir y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol, ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i baratoi yn unol â'r canllawiau.

### Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Ar sail y wybodaeth a'r ddealltwriaeth yn ymwneud â Phrif Gwnstabl Gwent a Chronfa Bensiwn Heddlu Gwent, a'u hamgylchedd, a amlygwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu ar y Cyd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i gyflwyno adroddiad arno mewn perthynas â'r materion canlynol, yr wyf yn cyflwyno adroddiad i chi os, yn fy marn i:

- nad yw cofnodion cyfrifyddu cywir wedi'u cadw, neu na dderbyniwyd y ffurflenni sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad oddi wrth ganghennau nad aeth fy nhîm i ymweld â nhw;
- nad yw'r datganiadau cyfrifyddu yn cytuno â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r Datganiad Cyfrifon, gan gynnwys datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Heddlu Gwent, sy'n rhoi darlun cywir a theg, ac am waith rheoli mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog ariannol cyfrifol er mwyn gallu paratoi datganiadau o gyfrifon nad ydynt yn cynnwys camddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu Prif Gwnstabl Gwent a Chronfa Bensiwn Heddlu Gwent i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo angen, materion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu, oni bai y bernir bod hynny'n amhriodol.

### Cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynglŷn ag a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, naill ai oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) yn canfod camddatganiad perthnasol bob amser. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu'n gyfanredol, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr sy'n cael eu gwneud ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwyf yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol o ran afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, Prif Gwnstabl Gwent a'i phennaeth archwilio mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael gafael ar, ac adolygu, dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Prif Gwnstabl Gwent a Chronfa Bensiwn Heddlu Gwent sy'n ymwneud â:
    - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
    - canfod ac ymateb i beryglon twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a
    - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.

- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, nodi dyddlyfrau anarferol a rhagfarn wrth gyfrifo amcangyfrifon cyfrifyddu;
- cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Prif Gwnstabl Gwent a Chronfa Bensiwn Heddlu Gwent yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae Prif Gwnstabl Gwent yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Prif Gwnstabl Gwent a Chronfa Bensiwn Heddlu Gwent.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi rheolwyr, y Cydbwyllgor Archwilio a chynghorwyr cyfreithiol am ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol ac arfaethedig;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy ddiystyru rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wneir wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs busnes arferol.

Gwnes i hefyd gyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i holl aelodau'r tîm archwilio gan barhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, wedi'i effeithio gan yr anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Prif Gwnstabl Gwent a Chronfa Bensiwn Heddlu Gwent, a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

**Tystysgrif cwblhau archwiliad**

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Prif Gwnstabl Gwent a Chronfa Bensiwn Heddlu Gwent yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton
Ar gyfer ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru
29 Tachwedd 2023

1 Chwarter y Brifddinas
Caerdydd
CF10 4BZ

*Cyfrifoldeb y Prif Gwnstabl yw cynnal a chadw ac uniondeb gwefan Heddlu Gwent; nid yw'r gwaith a gyflawnwyd gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac yn unol â hynny nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw newidiadau a all fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan am y tro cyntaf.*

# Datganiad o Gyfrifoldebau

Diben y datganiad hwn yw nodi cyfrifoldebau'r Prif Gwnstabl a'r Prif Swyddog Cynorthwyol - Adnoddau mewn perthynas â'r Datganiad Cyfrifon.

**Cyfrifoldebau'r Prif Gwnstabl**

Mae'n ofynnol i'r Prif Gwnstabl:

(i) Wneud trefniadau i weinyddu ei materion ariannol yn briodol ac i sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Y swyddog hwn yw'r Prif Swyddog Cynorthwyol - Adnoddau;

(ii) Rheoli ei materion er mwyn sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a diogelu ei hasedau; a

(iii) Chymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

Cymeradwyaf y Datganiad Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23.

**Llofnod:**

**Pamela Kelly**
**Prif Gwnstabl Gwent**
**Dyddiad:27 Tachwedd**

**Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cynorthwyol - Adnoddau**

Mae'r Prif Swyddog Cynorthwyol - Adnoddau yn gyfrifol am baratoi'r Datganiad Cyfrifon yn unol ag arferion priodol fel y'u nodir yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol ym Mhrydain (y Cod Ymarfer).

Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon, mae'r Prif Swyddog Cynorthwyol - Adnoddau wedi:

(i) Dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson;

(ii) Llunio barn ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol ac yn ddoeth; a

(iii) Cydymffurfio â'r Cod Ymarfer.

Mae'r Prif Swyddog Cynorthwyol - Adnoddau hefyd wedi:

(i) Cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a oedd yn gyfredol; a

(ii) Chymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac achosion eraill o afreoleidd-dra.

Ardystiaf fod y Datganiad Cyfrifon yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Prif Gwnstabl ar 31 Mawrth 2023 ac o'i hincwm a'i gwariant am y cyfnod a ddaeth i ben bryd hynny.

**Llofnod:**
(Swyddog Arian Cyfrifol)

**Nigel Stephens CPFA**
**Prif Swyddog Cynorthwyol - Adnoddau**
**Dyddiad: 30ain Mehefin 2023**

**Llofnod:**
(cyn cymeradwyaeth y Prif Gwnstabl)

**Nigel Stephens CPFA**
**Prif Swyddog Cynorthwyol - Adnoddau**
**Dyddiad:27 Tachwedd**

## Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant

Mae'r Dadansoddiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant (CIES) yn dangos cost cyfrifyddu yn ystod y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu sy'n cael eu derbyn yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm a ariennir trwy drethiant. Mae'r datganiad hwn yn adlewyrchu'r adnoddau a ddefnyddiwyd gan y Prif Gwnstabl yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023. Yn ymarferol, mae'r holl gostau cysylltiedig yn cael eu talu gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd ac mae'r Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant yn cynnwys addasiad rhyng-grŵp i adlewyrchu hyn, gan olygu mai £dim yw'r gost gyffredinol ar gyfer gwasanaethau Heddlu.

| 2021/22 | | | | | 2022/23 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant £'000** | **Incwm £'000** | **Net £'000** | **Nodiadau** | | **Gwariant £'000** | **Incwm £'000** | **Net £'000** |
| 92,542 | 0 | 92,542 | | Cyflogau a Lwfansau Swyddogion yr Heddlu | 91,098 | 0 | 91,098 |
| 45,185 | 0 | 45,185 | | Cyflogau a Lwfansau Staff yr Heddlu a SCC | 48,315 | 0 | 48,315 |
| 3,132 | 0 | 3,132 | | Goramser a Thaliadau Chwyddo Swyddogion yr Heddlu | 3,599 | 0 | 3,599 |
| 1,826 | 0 | 1,826 | | Goramser a Thaliadau Chwyddo Staff yr Heddlu a SCC | 2,089 | 0 | 2,089 |
| 4,245 | 0 | 4,245 | | Costau Eraill sy'n Gysylltiedig â Gweithwyr Cyflogedig | 4,849 | 0 | 4,849 |
| 7,616 | 0 | 7,616 | | Costau Eiddo | 9,568 | 0 | 9,568 |
| 4,416 | 0 | 4,416 | | Costau Trafnidiaeth | 4,622 | 0 | 4,622 |
| 26,789 | 0 | 26,789 | | Cyflenwadau a Gwasanaethau | 29,833 | 0 | 29,833 |
| 371 | 0 | 371 | | Cynlluniau Digwyddiadau Mawr | 402 | 0 | 402 |
| 177 | 0 | 177 | | Mentrau Gweithredol Rhagweithiol | 155 | 0 | 155 |
| **186,299** | **0** | **186,299** | | **Cost Gwasanaethau** | **194,530** | **0** | **194,530** |
| 0 | (220,004) | (220,004) | **8** | Trosglwyddo Cyllid oddi mewn i'r Grŵp | 0 | (239,944) | (239,944) |
| 0 | 0 | 0 | | Gwariant Gweithredu Arall | 0 | 0 | 0 |
| 36,898 | (3,193) | 33,705 | **7** | Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi | 50,081 | (4,667) | 45,414 |
| 0 | 0 | 0 | | Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol | 0 | 0 | 0 |
| **223,197** | **(223,197)** | **0** | | **Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | **244,611** | **(244,611)** | **0** |
| | | (13,624) | **17** | Ail fesur atebolrwydd/asedau buddiannau diffiniedig net | | | (641,940) |
| | | 13,624 | **8** | Trosglwyddo oddi mewn i'r Grŵp | | | 641,940 |
| | | **0** | | **Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | **0** |
| | | **0** | | **Cyfanswm yr Incwm a'r Gwariant Cynhwysfawr** | | | **0** |

## Mantolen

Gwerth net Mantolen y Prif Gwnstabl yw £dim. Mae hyn oherwydd bod y PCC yn berchen ar yr holl gronfeydd wrth gefn. Felly, mae unrhyw asedau a rhwymedigaethau o fewn mantolen y Prif Gwnstabl yn cael eu gwrthbwyso gan ddyledwr cyfatebol, sy'n adlewyrchu bod rhwymedigaethau pensiwn yn cael eu hariannu gan y PCC.

| 31 Mawrth 2022 £'000 | Nodiadau | | 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|---|
| 1,709,788 | | Dyledwyr Hirdymor | 1,118,133 |
| **1,709,788** | | **Asedau Hirdymor** | **1,118,133** |
| 522 | **9** | Rhestrau | 732 |
| 15,770 | **8** | Dyledwyr Tymor Byr | 15,287 |
| **16,292** | | **Asedau Cyfredol** | **16,019** |
| (16,292) | **10** | Credydwyr Tymor Byr | (16,019) |
| **(16,292)** | | **Rhwymedigaethau Cyfredol** | **(16,019)** |
| (1,709,788) | **11** | Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill | (1,118,133) |
| **(1,709,788)** | | **Rhwymedigaethau Hirdymor** | **(1,118,133)** |
| **0** | | **Asedau Net** | **0** |
| 0 | | Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio | 0 |
| 0 | | Cronfeydd Na Ellir eu Defnyddio | 0 |
| **0** | | **Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn** | **0** |

# Cyfrif Pensiynau'r Heddlu

Dyma fanylion Cyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu ar 31 Mawrth 2023 isod

## Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant

| 2021/22<br>£'000 | | 2022/23<br>£'000 |
|---|---|---|
| | **Cyfraniadau Derbyniadwy:** | |
| (15,182) | Cyfraniadau Cyflogwr | (16,074) |
| (1,689) | Pensiynau Anafiadau yn cynnwys Arian Rhodd a Dalwyd | (1,860) |
| (443) | Ymddeoliadau Cynnar (Costau Cyfalaf Cyfwerth) | (311) |
| 0 | Taliadau Treth Cyfandaliad Ôl-ddyddiedig Heb eu Hawdurdodi (cyllid Y Swyddfa Gartref) | 0 |
| (307) | Trosglwyddiadau i mewn o gynlluniau eraill | (410) |
| (6,540) | Cyfraniadau Aelodau | (6,885) |
| **(24,161)** | **Incwm Net** | **(25,540)** |
| | **Buddion Taladwy:** | |
| 34,590 | Pensiynau a Dalwyd | 36,806 |
| 53 | Cyfraniadau wedi'u Had-dalu | 121 |
| 9,883 | Buddion Cyfandaliad | 5,827 |
| 0 | Taliadau Treth Cyfandaliad Ôl-ddyddiedig Heb eu Hawdurdodi | 0 |
| 0 | Cyfandaliad Buddion Marwolaeth | 121 |
| 0 | Trosglwyddiadau allan i gynlluniau eraill | 0 |
| **44,526** | **Gwariant Net** | **42,875** |
| **20,365** | **Cyfanswm Net Taladwy ar gyfer y Flwyddyn** | **17,335** |
| (20,365) | Cyfraniad Ychwanegol gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd | (17,335) |
| **0** | **(Gwarged) / Diffyg y Cyfrif** | **0** |

## Datganiad Asedau Net

| 31 Mawrth 2022<br>£'000 | | 31 Mawrth 2023<br>£'000 |
|---|---|---|
| | **Asedau Cyfredol:** | |
| 2,623 | Buddion Pensiwn Rhagdaledig | 2,842 |
| 5,392 | Cyllid i fodloni'r diffyg dyledus gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd/Swyddfa Gartref | 237 |
| | Buddion Pensiwn wedi'u Hadennill | 0 |
| | **Rhwymedigaethau Cyfredol:** | |
| | Darpariaeth ar gyfer Cyfandaliadau Ôl-ddyddiedig | 0 |
| (1,795) | Sefyllfa Gorddrafft Arian Parod | (2,479) |
| (6,220) | Buddion Pensiwn Heb eu Talu | (600) |
| **0** | **Cyfanswm** | **0** |

**Nodiadau i Gyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu**

1. Mae'r polisïau cyfrifyddu a ddilynwyd a'r tybiaethau a wnaed mewn perthynas â Chyfrif Pensiynau'r Heddlu yn cyd-fynd â'r rhai sydd wedi'u nodi yn Nodyn 1, Polisïau Cyfrifyddu;

2. Roedd Cynllun Pensiwn yr Heddlu'n cael ei weinyddu gan Capita Plc hyd at 30 Mehefin 2021. Ers 1 Gorffennaf 2021 mae Cynllun Pensiwn yr Heddlu'n cael ei weinyddu gan XPS dan gontract;

3. Nid oes unrhyw asedau buddsoddi yn y gronfa. Caiff y taliadau i mewn ac allan o'r Gronfa Bensiwn eu cydbwyso i ddim bob blwyddyn trwy dderbyn cyfraniadau ychwanegol gan Gronfa Gyffredinol yr

Heddlu, sydd yn ei thro'n cael ei had-dalu gan grant penodol gan y Swyddfa Gartref (Grant Atodol); a

4. Nid yw datganiadau ariannol y Gronfa Bensiwn yn ystyried rhwymedigaethau pensiwn yn y dyfodol ar ôl 31 Mawrth 2023. Fodd bynnag, maent wedi’u cynnwys yn y Fantolen o dan Rwymedigaeth Pensiwn Net gyda datgeliadau manwl yn Nodyn 17, Cynlluniau Pensiwn Buddiannau Diffiniedig.

## Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y Prif Gwnstabl

Mae'r nodiadau hyn yn cynrychioli nodiadau cyfunol y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2022/23.

## Nodyn 1- Polisïau Cyfrifo

**1.1 Egwyddorion Cyffredinol**
Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Prif Gwnstabl ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 a'i sefyllfa erbyn y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2023. Mae'n ofynnol i'r Prif Gwnstabl baratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2015, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon gael eu paratoi yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol. Yn bennaf, mae'r arferion hyn yn cynnwys y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y DU 2022/23 a Chod Ymarfer Adrodd Gwasanaeth CIPFA 2022/23, a ategir gan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Cost hanesyddol yn bennaf yw'r arfer cyfrifyddu sydd wedi'i fabwysiadu yn y Datganiad Cyfrifon, wedi'i addasu trwy ailbrisio rhai categorïau o asedau nad ydynt yn gyfredol ac offerynnau ariannol. Mae'r Datganiad Cyfrifon wedi'i baratoi ar sail busnes gweithredol.

**1.2 Croniadau Incwm a Gwariant**
Cyfrifir am weithgarwch yn y flwyddyn y mae'n digwydd, nid dim ond pan fydd taliadau arian parod yn cael eu gwneud neu'n cael eu derbyn. Yn benodol:

i) Cydnabyddir refeniw o werthu nwyddau pan fydd y Prif Gwnstabl yn trosglwyddo risgiau a gwobrwyon sylweddol perchenogaeth i'r prynwr, a'i bod yn debygol y bydd manteision economaidd neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodiad yn llifo i'r Prif Gwnstabl.

ii) Cydnabyddir refeniw o ddarparu gwasanaethau pan fydd y Prif Gwnstabl yn gallu mesur mewn ffordd ddibynadwy canran y trafodion sy'n cael eu cwblhau, a'i bod yn debygol y bydd manteision economaidd neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodiad yn llifo i'r Prif Gwnstabl. Cofnodir cyflenwadau fel gwariant pan fyddant yn cael eu defnyddio - os oes bwlch rhwng dyddiad derbyn y cyflenwadau a'u defnydd, cânt eu cofnodi fel rhestri eiddo yn y Fantolen.

iii) Cofnodir treuliau sy'n ymwneud â gwasanaethau a dderbynnir (gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan weithwyr cyflogedig) fel gwariant pan dderbynnir y gwasanaethau yn hytrach na phan fydd taliadau'n cael eu gwneud.

**1.3 Dibrisiant**
Mae asedau sefydlog yn cael eu cadw o fewn cyfrifon Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, fodd bynnag, ailgodir tâl i gyfrifon y Prif Gwnstabl mewn perthynas â dibrisiant sydd wedi'i godi ar asedau'r Comisiynydd er mwyn adlewyrchu defnydd y Prif Gwnstabl o'r asedau hyn.

**1.4 Buddion Gweithwyr Cyflogedig**
**Buddion sy'n Daladwy yn ystod Cyflogaeth**
Mae buddiannau tymor byr gweithwyr cyflogedig i fod i gael eu talu o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion fel cyflogau, gwyliau blynyddol â thâl a goramser ar y cerdyn, ac maent yn cael eu cydnabod fel traul ar gyfer gwasanaethau yn y flwyddyn y mae gweithwyr cyflogedig yn darparu gwasanaeth i'r Prif Gwnstabl. Gwneir croniad ar gyfer cost hawliau gwyliau (neu unrhyw fath o absenoldeb, oriau hyblyg a goramser ar y cerdyn) y mae gweithwyr cyflogedig wedi'u hennill ond nad ydynt wedi'u cymryd cyn diwedd y flwyddyn. Gall gweithwyr cyflogedig eu trosglwyddo i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r croniad yn cael ei wneud ar y cyfraddau cyflog sy'n berthnasol ar ddiwedd y cyfnod cyfrifyddu perthnasol. Codir am y croniad i'r Costau Gwasanaethau a chofnodir y rhwymedigaeth ym mantolen Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a Grŵp y PCC yn ei gronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio gan fod darpariaethau statudol yn golygu na all y Prif Gwnstabl ddal cronfeydd wrth gefn.

**Buddion Terfynu Swydd**
Mae buddion terfynu yn symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan y Prif Gwnstabl i derfynu cyflogaeth gweithiwr cyflogedig cyn y dyddiad ymddeol arferol, neu benderfyniad gweithiwr cyflogedig i dderbyn diswyddiad gwirfoddol yn gyfnewid am y buddion hynny. Pan fydd y Prif Gwnstabl yn dangos ymrwymiad i derfynu cyflogaeth gweithiwr cyflogedig neu grŵp o weithwyr cyflogedig, neu pan fydd yn gwneud cynnig i annog diswyddiad gwirfoddol, codir y costau hyn ar sail croniadau i'r llinell wasanaeth briodol yn y CIES.

**Buddion ôl-gyflogaeth**
Mae'r costau pensiwn sydd wedi'u cynnwys yn y cyfrifon wedi'u penderfynu'n unol â rheoliadau perthnasol y Llywodraeth. Mae IAS 19 yn ei gwneud yn ofynnol i rwymedigaethau pensiwn presennol ac yn y dyfodol ymddangos yng nghyfrifon sefydliadau (cyhoeddus a phreifat). Mae'n nodi bod angen cydnabod yr ased/rhwymedigaeth yn llawn; bod cronfa bensiwn yn ymddangos yn y Fantolen; a bod cofnodion yn y CIES yn nodi symudiadau yn yr ased/rhwymedigaeth.

Mae'r Prif Gwnstabl yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn ôl-gyflogaeth, sef Cynllun Pensiwn yr Heddlu ar gyfer Swyddogion yr Heddlu, a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Gwent Fwyaf (Torfaen), ar gyfer Staff yr Heddlu. Mae'r ddau gynllun yn darparu buddion diffiniedig ar gyfer aelodau e.e. cyfandaliadau ymddeol a phensiynau sydd wedi'u hennill gan weithwyr cyflogedig sy'n gweithio i'r Prif Gwnstabl, neu ar gyfer partïon cysylltiedig.

Mae darpariaethau statudol yn datgan na all Datganiad Cyfrifon y Prif Gwnstabl gynnwys Cronfeydd Wrth Gefn. Gan hynny mae'r rhwymedigaeth pensiwn a'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn yn cael eu dangos yn Natganiad o Gyfrifon Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

a Grŵp y PCC. O safbwynt buddion ymddeol, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i falans Cronfa'r Heddlu dalu'r swm sy'n daladwy gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd i'r gronfa bensiwn neu'n uniongyrchol i bensiynwyr yn ystod y flwyddyn, nid y swm sydd wedi'i gyfrifo yn ôl y safonau cyfrifyddu perthnasol, yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Mae hyn yn golygu bod yna ddyraniadau i mewn ac allan o'r Gronfa Bensiynau er mwyn dileu'r debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddion ymddeol, a'u disodli â debydau am yr arian parod a dalwyd i'r gronfa bensiwn ac i bensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond nad ydynt wedi'u talu erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sy'n dilyn yn y Gronfa Bensiynau yn mesur yr effaith fanteisiol ar y Gronfa Gyffredinol sy'n deillio o'r angen i fod yn atebol am fuddion ymddeol ar sail llif arian parod yn hytrach na fel buddion sy'n cael eu hennill gan weithwyr cyflogedig.

**Buddion yn ôl Disgresiwn**
Mae gan y Prif Gwnstabl bwerau cyfyngedig i ddyfarnu buddion ymddeol yn ôl ei disgresiwn mewn achosion o ymddeoliad cynnar. Mae unrhyw rwymedigaethau yr amcangyfrifir y byddant yn codi o ganlyniad i ddyfarniad i unrhyw aelod o staff yn cael eu cronni yn y flwyddyn y penderfynwyd gwneud y dyfarniad a chânt eu cyfrif yn defnyddio'r un polisïau ac a ddefnyddir yn y Cynllun Llywodraeth Leol.

**Buddion Anafiadau**
Hefyd, mae'r Prif Gwnstabl yn talu buddion anafiadau i Swyddogion yr Heddlu sydd wedi ymddeol am resymau meddygol ar ôl cael anaf wrth gyflawni eu dyletswyddau. Telir symiau fel rhan o bensiwn misol y swyddogion, ond yn hytrach na bod yn eitem o gost yng Nghyfrif Pensiynau'r Heddlu, mae'r symiau hyn yn cael eu trosglwyddo i CIES ac maent yn dâl yn erbyn balans Cronfa Gyffredinol yr Heddlu.

**1.5 Rhestri Eiddo a Chontractau Hirdymor**
Mae'r Prif Gwnstabl yn cadw stoc o wisgoedd, arfwisg a chydrannau cerbydau. Mae stociau o ddisel, eitemau'r ddalfa a nwyddau traul cyfrifiadurol wedi'u dileu o'r Fantolen a'u trosglwyddo i'r CIES yn ystod y flwyddyn gan nad ystyriwyd bod y balansau a oedd yn cael eu cadw yn berthnasol. Mae gwerth stociau sy'n cael eu cadw ar ddiwedd y flwyddyn yn cael ei gofnodi yn y cyfrifon yn unol â'r gost gyfredol, ac eithrio cydrannau cerbydau, sy'n cael eu cofnodi fel cost hanesyddol. Nid yw stoc rhodd wedi ei gynnwys yn y Fantolen gan nad ystyriwyd bod y balansau a oedd yn cael eu cadw yn berthnasol.

**1.6 Prydlesi**
Codir y rhenti sy'n daladwy o dan brydlesi gweithredol i'r CIES ar sail croniadau.

**1.7 Buddiannau mewn Is-gwmnïau, Partneriaethau Cyswllt ac endidau a Reolir ar y Cyd gan gynnwys Trefniadau ar y Cyd**
Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Gwnstabl ddatgelu unrhyw fuddiannau perthnasol mewn is-gwmnïau, partneriaethau cyswllt ac endidau a reolir ar y cyd mewn cyfres o gyfrifon grŵp. Mae'r gofyniad hwn yn golygu cydgrynhoi trafodion a balansau is-gwmnïau a buddiannau mewn partneriaethau cyswllt a mentrau ar y cyd. Nid yw'r Prif Gwnstabl yn dal unrhyw fuddiannau perthnasol mewn is-gwmnïau, partneriaethau cyswllt nac endidau a reolir ar y cyd y mae angen eu cydgrynhoi. Polisi'r Prif Gwnstabl yw datgelu manylion unrhyw gwmnïau cysylltiedig mewn nodyn i'r datganiadau ariannol.

Os yw'r Prif Gwnstabl wedi ymrwymo i drefniadau cydweithredol gyda Chomisiynwyr/Heddluoedd eraill, mae asesiad wedi'i wneud yn erbyn Trefniadau ar y Cyd IFRS 11 i benderfynu'r llwybr cyfrifyddu priodol. Mae IFRS11 ei gwneud yn ofynnol i'r holl drefniadau o'r fath gael eu dosbarthu'n Fentrau ar y Cyd neu'n Weithrediadau ar y Cyd.

**1.8 Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newidiadau mewn Polisïau Cyfrifyddu, Amcangyfrifon a Gwallau**
Gall addasiadau i'r cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifyddu neu er mwyn cywiro gwall perthnasol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu mewn ffordd ragolygol, h.y. yn y flwyddyn bresennol a blynyddoedd y dyfodol y mae'r newid yn effeithio arnynt, ac nid ydynt yn arwain at addasiad cyfnod blaenorol.

Nid yw polisïau cyfrifyddu'n cael eu newid oni bai bod angen gwneud hynny gan arferion cyfrifyddu priodol neu os yw'r newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau sefyllfa ariannol neu berfformiad y Prif Gwnstabl. Os oes newid yn cael ei wneud, fe'i cyflwynir yn ôl-weithredol (oni nodir yn wahanol) trwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi newydd wedi bod ar waith erioed.

Caiff gwallau perthnasol a ganfuwyd mewn ffigurau cyfnod blaenorol eu cywiro yn ôl-weithredol trwy ddiwygio balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod.

**1.09 Treth ar Werth (TAW)**
Nid yw Incwm a Gwariant yn cynnwys unrhyw symiau sy'n ymwneud â TAW gan fod yr holl TAW yn cael ei hanfon i/o Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi. Felly, mae'r Datganiadau Ariannol Craidd wedi'u paratoi heb gynnwys TAW.

**1.10 Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd**
Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau ffafriol ac anffafriol rhwng diwedd y cyfnod adrodd a dyddiad awdurdodi cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon. Gellir nodi dau fath o ddigwyddiad:

Digwyddiadau sy'n darparu tystiolaeth o'r amodau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath; a
Digwyddiadau sy'n arwydd o amodau a gododd ar ôl diwedd y cyfnod adrodd – nid yw'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond pe bai categori o ddigwyddiadau'n cael effaith berthnasol, datgelir natur y digwyddiadau a'u heffaith ariannol bosibl yn y nodiadau.

**1.11 Eitemau Eithriadol**

Pan fydd eitemau incwm a threuliau yn berthnasol, datgelir eu natur a'u maint ar wahân, naill ai ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) neu yn y nodiadau i'r cyfrifon, gan ddibynnu ar ba mor berthnasol yw'r eitemau i ddeall perfformiad ariannol y Prif Gwnstabl.

## Nodyn 2 - Safonau Cyfrifyddu sydd wedi'u cyhoeddi ond nad ydynt wedi'u mabwysiadu eto

O dan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022/23 (y Cod), mae'n ofynnol i'r Prif Gwnstabl ddatgelu gwybodaeth sy'n nodi effaith newid mewn cyfrifyddu sy'n ofynnol gan safon gyfrifo newydd sydd wedi'i chyhoeddi ond nad yw wedi'i mabwysiadu eto gan y Cod.

Mae paragraff 3.3.2.13 y Cod yn ei gwneud yn ofynnol i newidiadau mewn polisi cyfrifyddu gael eu cyflwyno mewn ffordd ôl-weithredol oni bai bod trefniadau trosiannol amgen wedi'u nodi yn y Cod.

Yn ogystal, mae paragraff 3.3.4.3 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod ddatgelu gwybodaeth yn ymwneud ag effaith newid cyfrifyddu a fydd yn ofynnol gan safon newydd sydd wedi'i chyhoeddi ond nad yw wedi'i mabwysiadu eto gan y Cod ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol. Mae'r safonau sydd wedi newid fel a ganlyn:

- IFRS 16 - Prydlesi, a gyhoeddwyd yn Ionawr 2019. Gohiriwyd mabwysiadu'r safon hon nes Cod 2024/25;
- Diffiniad o Amcangyfrifon Cyfrifyddu (Diwygiadau i IAS 8) a gyhoeddwyd yn Chwefror 2021.
- Diffiniad o Amcangyfrifon Cyfrifyddu (Diwygiadau i IAS 1 a Datganiad Ymarfer IFRS 2) a gyhoeddwyd yn Chwefror 2021.
- Treth a Ohiriwyd yn ymwneud ag Asedau a Rhwymedigaethau sy'n codi o Drafodiad Unigol (Diwygiadau i IAS 12) a gyhoeddwyd ym Mai 2021.
- Diweddariad i Gyfeiriad at y Fframwaith Cysyniadol (Diwygiadau i IFRS 3) a gyhoeddwyd ym Mai 2020.

Nid ymdrinnir ag unrhyw un o'r gwelliannau yng nghod 2022/23 gan na fyddant wedi cael effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol awdurdodau lleol.

## Nodyn 3 - Dyfarniadau critigol wrth gyflwyno polisïau cyfrifyddu

Wrth gyflwyno'r polisïau cyfrifyddu sydd wedi'u cynnwys yn Nodyn 1, nid oedd angen i'r Prif Gwnstabl wneud unrhyw ddyfarniadau critigol yn ymwneud â thrafodion cymhleth neu drafodion sy'n ymwneud ag ansicrwydd ynghylch digwyddiadau yn y dyfodol.

## Nodyn 4 - Rhagdybiaethau a wnaed am ffynonellau ansicrwydd amcangyfrifon y dyfodol, a ffynonellau ansicrwydd amcangyfrifon eraill

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys ffigurau bras sy'n seiliedig ar ragdybiaethau'r Prif Gwnstabl ynglŷn â'r dyfodol, neu sy'n ansicr fel arall. Gwneir amcangyfrifon sy'n ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu balansau gyda sicrwydd, gallai canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol iawn i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon.

Mae'r eitemau ym Mantolen y Prif Gwnstabl ar 31 Mawrth 2023, y mae risg sylweddol yn berthnasol iddynt, yn sgil addasiadau perthnasol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod fel a ganlyn:

| Eitem | Ansicrwydd | Effaith os yw'r canlyniadau gwirioneddol yn wahanol i ragdybiaethau |
|---|---|---|
| **Rhwymedigaeth pensiynau'r heddlu** | Mae amcangyfrif o'r rhwymedigaeth i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n ymwneud â'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir, y gyfradd y disgwylir i gyflogau gynyddu, newidiadau mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaethau a'r enillion disgwyliedig ar asedau'r gronfa bensiwn. Gofynnwyd i Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD) roi cyngor arbenigol i Grŵp y PCC ar y rhagdybiaethau sydd i'w defnyddio<br><br>Ceir gwybodaeth bellach am asedau a rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn yn Nodyn 17. | Gellir mesur yr effeithiau ar rwymedigaeth pensiwn net y newidiadau mewn rhagdybiaethau unigol. Er enghraifft, byddai cynnydd o 0.5% yng nghyfradd y cynnydd mewn cyflogau yn creu cynnydd o £12 miliwn yn Rhwymedigaeth Cynllun Pensiwn yr Heddlu.<br>Byddai cynnydd blwyddyn mewn disgwyliad oes Pensiynwyr yr Heddlu yn arwain at gynnydd o £29 miliwn yn Rhwymedigaeth Pensiwn yr Heddlu.<br>Fodd bynnag, mae'r rhagdybiaethau yn rhyngweithio mewn ffyrdd cymhleth a sensitif. Yn ystod 2022/23, dywedodd GAD fod y rhwymedigaeth pensiynau net wedi cynyddu £570.18 miliwn oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddiwyd. Yn y flwyddyn ariannol flaenorol, roedd y rhwymedigaeth pensiwn net wedi gostwng £21.87 miliwn, a briodolwyd i newidiadau mewn Rhagdybiaethau ariannol. |

## Nodyn 5 -Eitemau Incwm a Gwariant Perthnasol

Nid oes unrhyw eitemau materol o incwm a gwariant sy'n gofyn am ddatgeliad ar wahân.

## Nodyn 6 -Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen

Awdurdodwyd cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon Drafft gan y Prif Swyddog Cynorthwyol - Adnoddau ar 30 Mehefin 2023. Nid oes unrhyw ddigwyddiadau addasu neu nad ydynt wedi'u haddasu.

## Nodyn 7 - Incwm a Gwariant Cyllid a Buddsoddi

Cyllid, incwm a gwariant buddsoddi (dangosir yn net) yn codi o gostau llog pensiynau ac enillion disgwyliedig yn y cyfnod ar y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig net (ased).

| 2021/22<br>£'000 | | 2022/23<br>£'000 |
|---|---|---|
| 0 | Llog taladwy a thaliadau tebyg | 0 |
| 33,705 | Llog net ar y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig (ased) | 45,414 |
| 0 | Llog derbyniadwy ac incwm tebyg | 0 |
| **33,705** | **Cyfanswm** | **45,414** |

## Nodyn 8 - Addasiadau Rhyng-grŵp

Mae'r tabl isod yn dangos y symudiad trwy'r cyfrif addasiad Rhyng-grŵp o fewn Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant y PCC a'r Prif Gwnstabl (CIES) a'r Fantolen yn ystod y flwyddyn. Mae angen gwneud addasiadau rhyng-grŵp yn y CIES gan na all y Prif Gwnstabl gadw unrhyw gronfeydd wrth gefn, sy'n golygu bod angen trosglwyddo unrhyw warged neu ddiffyg o ran darparu gwasanaethau ac unrhyw enillion neu golledion actiwaraidd ar asedau a rhwymedigaethau pensiwn i'r PCC. Mae credydwyr a rhestrau eiddo tymor byr (stociau) yn cael eu cydnabod ym Mantolen y Prif Gwnstabl. Fodd bynnag, gan na all y Prif Gwnstabl gadw cronfeydd wrth gefn, a bod yn rhaid iddi gael Mantolen heb werth net, mae angen gwneud addasiad rhyng-grŵp i sicrhau mai dim yw balans yr asedau net a'r cronfeydd wrth gefn.

**Addasiadau Rhyng-grŵp CIES**

| PCC 2021/22 £'000 | Prif Gwnstabl 2021/22 £'000 | Grŵp PCC / 2021/22 £'000 | | PCC 2022/23 £'000 | Prif Gwnstabl 2022/23 £'000 | Grŵp PCC / 2022/23 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| (14,004) | 186,299 | 172,295 | Cost Net Gwasanaethau | (14,641) | 194,530 | 179,889 |
| 16 | 33,705 | 33,721 | Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi | (496) | 45,414 | 44,918 |
| (20,913) | 0 | (20,913) | Gwariant Gweithredu Arall | (17,115) | 0 | (17,115) |
| 220,004 | (220,004) | 0 | Addasiad rhyng-grŵp | 239,944 | (239,944) | 0 |
| **185,103** | **0** | **185,103** | **Cyfanswm** | **207,692** | **0** | **207,692** |
| (1,080) | (13,624) | (14,704) | (Enillion) / colledion actiwaraidd ar asedau/rhwymedigaethau pensiwn | (3,483) | (641,940) | (645,423) |
| (13,624) | 13,624 | 0 | Addasiad rhyng-grŵp | (641,940) | 641,940 | 0 |
| **(14,704)** | **0** | **(14,704)** | **Cyfanswm** | **(645,423)** | **0** | **(645,423)** |

**Mantolen Addasiadau**

| PCC 2021/22 £'000 | Prif Gwnstabl 2021/22 £'000 | Grŵp PCC / 2021/22 £'000 | | PCC 2022/23 £'000 | Prif Gwnstabl 2022/23 £'000 | Grŵp PCC / 2022/23 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 0 | 522 | 522 | Rhestrau | 0 | 732 | 732 |
| (1,903) | (16,292) | (18,195) | Credydwyr | (1,958) | (16,019) | (17,977) |
| (15,770) | 15,770 | 0 | Addasiad rhyng-grŵp | (15,287) | 15,287 | 0 |
| **(17,673)** | **0** | **(17,673)** | **Cyfanswm** | **(17,245)** | **0** | **(17,245)** |

## Nodyn 9 – Rhestrau Eiddo

Yr hyn sy'n dilyn yw gwerth agor rhestrau eiddo'r Prif Gwnstabl:

| | Storfeydd Nwyddau Traul | | Deunyddiau Cynnal a Chadw | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2021/22 | 2022/23 | 2021/22 | 2022/23 | 2021/22 | 2022/23 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Balans sy'n weddill ar ddechrau'r flwyddyn | 377 | 373 | 74 | 149 | **451** | **522** |
| Pryniannau | 548 | 584 | 390 | 301 | **938** | **885** |
| Nodwyd fel traul yn y flwyddyn | (552) | (345) | (315) | (330) | **(867)** | **(675)** |
| **Balans sy’n Weddill ar Ddiwedd y Flwyddyn** | **373** | **612** | **149** | **120** | **522** | **732** |

## Nodyn 10 - Credydwyr

Balansau Credydwyr Tymor Byr y Prif Gwnstabl ar 31 Mawrth 2023:

| 31 Mawrth 2022 | | 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| (8,259) | Symiau masnach taladwy | (9,229) |
| (8,033) | Symiau taladwy eraill | (6,790) |
| **(16,292)** | **Cyfanswm Credydwyr** | **(16,019)** |

## Nodyn 11 – Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill

**Rhwymedigaeth Pensiwn Net**

| 31 Mawrth 2022<br>£'000 | | 31 Mawrth 2023<br>£'000 |
|---|---|---|
| 1,680,744 | Balans 1 Ebrill | 1,709,788 |
| (13,624) | Ail-fesur buddion y (rhwymedigaeth)/ased diffiniedig net | (641,940) |
| 87,368 | Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â buddion ymddeol a gafodd eu debydu neu eu credydu i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant | 92,038 |
| (44,700) | Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn | (41,753) |
| 0 | Symudiadau eraill | 0 |
| **1,709,788** | **Balans 31 Mawrth** | **1,118,133** |

Mae'r Gronfa Bensiynau Wrth Gefn a'r rhwymedigaeth pensiwn net cyfatebol yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o'r trefniadau gwahanol ar gyfer cyfrifo am fuddion ôl-gyflogaeth yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Prif Gwnstabl yn cyfrif am fuddion ôl-gyflogaeth yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant gan fod y buddion yn cael eu hennill wrth i weithwyr cyflogedig gronni blynyddoedd o wasanaeth. Mae cyfrifon y Prif Gwnstabl hefyd yn diweddaru'r rhwymedigaethau a gydnabyddir er mwyn adlewyrchu chwyddiant, newid rhagdybiaethau ac enillion buddsoddi ar unrhyw adnoddau sydd wedi'u neilltuo i dalu'r costau.

## Nodyn 12 - Lwfansau Aelodau

Talodd Grŵp y PCC £7,159 i Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023. Mae'r symiau wedi 'u rhannu'n gyfartal â'r Prif Gwnstabl.

| 31 Mawrth 2022<br>£ | | 31 Mawrth 2023<br>£ |
|---|---|---|
| 0 | Cyflogau | 0 |
| 4,367 | Lwfansau | 3,489 |
| 8 | Treuliau | 90 |
| 4,375 | **Cyfanswm Lwfansau Aelodau** | 3,579 |

# Nodyn 13 -Tâl Swyddogion Heddlu a Staff Heddlu

**Nifer Swyddogion yr Heddlu a Staff yr Heddlu**

| | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|
| **Swyddogion Heddlu:** | | |
| Uwchben rheng Cwnstabl | 305 | 322 |
| Cwnstabl | 1,148 | 1,225 |
| **Cyfanswm** | **1,453** | **1,547** |
| | | |
| **Staff yr Heddlu:** | | |
| Amser llawn | 842 | 872 |
| Rhan amser | 164 | 155 |
| **Cyfanswm** | **1,006** | **1,027** |

Y rhifau uchod yw'r rhifau ar 31 Mawrth 2023.

**Tâl a dderbyniwyd**

Yr hyn a nodir isod yw nifer y Swyddogion a'r Staff a gyflogwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd, ond sydd o dan gyfarwyddyd a rheolaeth y Prif Gwnstabl, a dderbyniodd dâl dros £60,000 yn ystod y flwyddyn. Mae'r tabl yn dangos lluosrifau mewn bandiau o £5,000. Mae'r diffiniad o dâl yn cynnwys cyflogau a lwfansau blynyddol, a didyniadau aberthu cyflog, ond nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr. Mae'r ffigurau'n cynnwys swyddogion y mae manylion eu swyddi yn y Datgeliad Tâl.

| 2021/22 | Band Cyflog | | | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|
| 37 | £60,000 | - | £64,999 | 42 |
| 6 | £65,000 | - | £69,999 | 18 |
| 3 | £70,000 | - | £74,999 | 7 |
| 5 | £75,000 | - | £79,999 | 8 |
| 6 | £80,000 | - | £84,999 | 1 |
| 3 | £85,000 | - | £89,999 | 4 |
| 7 | £90,000 | - | £94,999 | 4 |
| 2 | £95,000 | - | £99,999 | 2 |
| 0 | £100,000 | - | £104,999 | 1 |
| 0 | £105,000 | - | £109,999 | 0 |
| 2 | £110,000 | - | £114,999 | 2 |
| 0 | £115,000 | - | £119,999 | 0 |
| 0 | £120,000 | - | £124,999 | 0 |
| 0 | £125,000 | - | £129,999 | 0 |
| 1 | £130,000 | - | £134,999 | 0 |
| 0 | £135,000 | - | £139,999 | 0 |
| 0 | £140,000 | - | £144,999 | 0 |
| 0 | £145,000 | - | £149,999 | 0 |
| 0 | £150,000 | - | £154,999 | 1 |
| 1 | £155,000 | - | £159,999 | 0 |

**Perthynas Tâl**

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng y 'Swyddog Gweithredol' sy'n ennill y cyflog mwyaf yn y sefydliad a thâl canolrifol gweithlu'r sefydliad yn ystod blwyddyn y cyfrifon. Mae tâl yn seiliedig ar dâl blynyddol llawn amser taladwy, ac fe'i pennir ar sail y cyflog ar 31 Mawrth 2023 ynghyd â'r buddion mewn nwyddau a thaliadau eraill a wnaed yn ystod y cyfnod.

| | **2021/22** | **2022/23** |
|---|---|---|
| Tâl y Prif Gwnstabl | 158,672 | 154,909 |
| Tâl Canolrifol Staff y Prif Gwnstabl | 29,793 | 32,313 |
| Cymhareb Tâl Canolrifol | **5.33** | **4.79** |

**Datgelu Tâl**

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r datgeliad tâl ar gyfer Swyddogion yr Heddlu perthnasol (safle Prif Swyddog) a Staff Uwch (safle sy'n cyfateb i Brif Swyddog), sydd â chyflog o £60,000 y flwyddyn neu fwy. Mae'r rheoliad yn ei gwneud yn ofynnol i enwi unigolion sydd â chyflog dros £150,000 y flwyddyn.

Mae lwfansau treuliau yn cynnwys lwfans cyfandaliad ar gyfer car "defnyddiwr hanfodol", ac mae buddiant mewn nwyddau yn cynnwys gwerth arian buddion sy'n cael eu derbyn nad ydynt yn arian parod e.e. defnydd preifat o un o asedau'r Heddlu. Mae taliadau eraill yn cynnwys lwfansau sy'n berthnasol i Swyddogion yr Heddlu yn unig, fel lwfans rhent a grant digolledu. Yn ystod y flwyddyn, ni thalwyd unrhyw symiau mewn perthynas ag iawndal am golli gwaith. Mae datgeliad cyfatebol wedi'i ddarparu ar gyfer y flwyddyn flaenorol 2021/22.

# Tâl Uwch Swyddogion yr Heddlu ac Uwch Aelodau Staff yr Heddlu Perthnasol

Tâl Uwch Swyddogion yr Heddlu ac Uwch Aelodau Staff yr Heddlu Perthnasol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.

**2022/23**

| Gwybodaeth Deiliad y Swydd (Teitl Swydd) | Nodyn | Cyflog | Tâl Cysylltiedig â Swydd | Bonws | Treuliau | Buddion mewn Nwyddau | Arall | Cyfanswm Tâl ac eithrio Cyfraniadau Pensiwn | Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr | Cyfanswm Tâl yn cynnwys Cyfraniadau Pensiwn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Prif Gwnstabl Pamela Kelly | | 151,023 | 0 | 0 | 0 | 3,094 | 0 | **154,117** | 46,817 | **200,934** |
| Dirprwy Brif Gwnstabl (1) | 1 | 72,108 | 0 | 0 | 0 | 0 | 6,953 | **79,061** | 22,353 | **101,414** |
| Dirprwy Brif Gwnstabl (2) | 2 | 47,779 | 0 | 0 | 0 | 281 | 0 | **48,060** | 14,811 | **62,871** |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol (1) | 3 | 96,861 | 11,001 | 0 | 0 | 14 | 4,839 | **112,715** | 30,027 | **142,742** |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol (2) | 4 | 10,637 | 0 | 0 | 0 | 0 | 457 | **11,094** | 3,297 | **14,391** |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol (3) | 5 | 35,795 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,611 | **37,406** | 11,097 | **48,503** |
| Prif Swyddog Cynorthwyol (Adnoddau ) | | 114,313 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **114,313** | 20,348 | **134,661** |

**Nodiadau**

**1** Ymddiswyddodd Dirprwy Brif Gwnstabl (1) 30 Hydref 2022 i ddod yn Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru.

**2** Penodwyd Dirprwy Brif Gwnstabl (2) 14 Tachwedd 2022.

**3** Dewisodd Prif Gwnstabl Cynorthwyol (1) dderbyn lwfans tâl cysylltiedig â swydd amhensiynadwy ar sail swydd blynyddol o £13,851 a lwfans cyfandaliad car ar sail flynyddol o £4,839 nes cael ei benodi'n barhaol yn Brif Gwnstabl Cynorthwyol ar 1 Ionawr 2023.

**4** Cafodd Prif Gwnstabl Cynorthwyol (2) ddyrchafiad dros dro o Brif Uwch-arolygydd rhwng 1 Awst - 4 Medi 2022, a dewisodd lwfans cyfandaliad car ar sail flynyddol o £4,839.

**5** Cafodd Prif Gwnstabl Cynorthwyol (3) ddyrchafiad dros dro o Brif Uwch-arolygydd rhwng 5 Medi - 4 Ionawr 2023, a dewisodd lwfans cyfandaliad car ar sail flynyddol o £4,839.

**6** Telir cyfraniad pensiwn y cyflogwr mewn perthynas â Swyddogion Heddlu ar gyfradd o 31%. Telir yr holl Uwch Gyflogeion eraill ar gyfradd o 17.8%.

**7** Ymysg taliadau eraill mae: Lwfans Car, Lwfans Tai, a thâl am wyliau yn lle rhybudd pan fydd pobl yn gadael, yn unol â Rheoliadau'r Heddlu.

**2021/22**

| Gwybodaeth Deiliad y Swydd (Teitl Swydd) | Nodyn | Cyflog £ | Tâl Cysylltiedig â Swydd £ | Bonws £ | Treuliau £ | Buddion mewn Nwyddau £ | Arall £ | Cyfanswm Tâl ac eithrio Cyfraniadau Pensiwn £ | Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr £ | Cyfanswm Tâl yn cynnwys Cyfraniadau Pensiwn £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif Gwnstabl | | 149,913 | 0 | 0 | 0 | 8,759 | 0 | **158,672** | 46,473 | **205,145** |
| Dirprwy Brif Gwnstabl | | 123,648 | 0 | 0 | 0 | 6,449 | 3,685 | **133,782** | 38,331 | **172,113** |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol (1) | 1 | 76,211 | 14,857 | 0 | 0 | 0 | 4,019 | **95,087** | 23,625 | **118,712** |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol (2) | 2 | 15,227 | 2,657 | 0 | 0 | 0 | 820 | **18,704** | 4,720 | **23,424** |
| Prif Swyddog Cynorthwyol Adnoddau | | 113,259 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **113,259** | 20,160 | **133,419** |

**Nodiadau**

**1** Dychwelodd Prif Gwnstabl Cynorthwyol (1) i'w reng arferol fel Prif Uwch-arolygydd ar 30 Ionawr 2022, gan ddewis derbyn lwfans tâl cysylltiedig â swydd amhensiynadwy ar sail swydd blynyddol o £20,655 a lwfans cyfandaliad car ar sail blynyddol o £4,839.

**2** Cafodd Prif Gwnstabl Cynorthwyol (2) ddyrchafiad dros dro o Brif Uwch-arolygydd ar 31 Ionawr 2022, gan ddewis derbyn lwfans tâl cysylltiedig â swydd amhensiynadwy ar sail swydd flynyddol o £15,690 a lwfans cyfandaliad car ar sail flynyddol o £4,839.

**3** Talwyd cyfraniad pensiwn y cyflogwr mewn perthynas â Swyddogion Heddlu ar gyfradd o 31.0%. Talwyd yr holl Uwch Gyflogeion eraill ar gyfradd o 17.8%.

**4** Ymysg taliadau eraill mae: Lwfans Car a Lwfans Tai yn unol â Rheoliadau'r Heddlu

## Nodyn 14 - Buddion Terfynu Swydd

Mae Rhestr o becynnau ymadael y cytunwyd arnynt ar 31 Mawrth 2023 i'w gweld yn y tabl isod gyda ffigyrau cymharol ar gyfer y flwyddyn flaenorol.

| Band cost y pecyn ymadael (gan gynnwys taliadau arbennig) | | | Nifer y diswyddiadau gorfodol | | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | | Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost | | Cyfanswm cost y pecynnau ymadael ym mhob band | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **2021/22** | **2022/23** | **2021/22** | **2022/23** | **2021/22** | **2022/23** | **2021/22** | **2022/23** |
| | | | | | | | | | **£** | **£** |
| £0 | - | £20,000 | 2 | 4 | 0 | 0 | 2 | 4 | **22,088** | **983** |
| £20,001 | - | £40,000 | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | **52,244** | **0** |
| £40,001 | - | £60,000 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | **54,294** | **0** |
| £60,001 | - | £80,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** |
| £80,001 | - | £100,000 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 | **0** | **165,621** |
| £100,001 | - | £150,000 | 1 | 2 | 0 | 0 | 1 | 2 | **136,646** | **264,183** |
| **Cyfanswm** | | | **6** | **8** | **0** | **0** | **6** | **8** | **265,272** | **430,787** |

Cytunwyd ar yr holl becynnau ymadael ac fe gawsant eu talu hyd at 31 Mawrth 2023.

Y gost straen yn y ffigyrau uchod ar gyfer 2022/23 yw £314,489 (2021/22 £133,563).

## Nodyn 15 - Costau Archwilio Allanol

Ysgwyddodd y PCC a'r Prif Gwnstabl ffioedd archwilio allanol Archwilio Cymru o £98,730 yn ystod 2022/23 ar y cyd. Talwyd ffi ychwanegol o £3,660 yn 2022/23 i Archwilio Cymru am waith ychwanegol yn ymwneud â 2019/20.

Mae'r gost wedi cael ei rhannu'n gyfartal rhwng Datganiad Cyfrifon Grŵp y PCC a Datganiad Cyfrifon y Prif Gwnstabl.

| 2021/22 | | 2022/23 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| 43 | Ffioedd sy'n daladwy i archwilwyr allanol ar gyfer gwasanaethau archwilio allanol a gwblhawyd gan yr archwilydd penodedig ar gyfer y flwyddyn | 49 |
| **43** | **Cyfanswm** | **49** |

## Nodyn 16 - Partïon Cysylltiedig

Mae IAS 24 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Gwnstabl ddatgelu’r holl drafodion perthnasol â phartïon cysylltiedig, sef cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i ddylanwadu ar y Prif Gwnstabl neu i gael eu rheoli a'u dylanwadu gan y Prif Gwnstabl. Mae datgelu'r trafodion hyn yn caniatáu i'r darllenydd weld i ba raddau y gallai'r Prif Gwnstabl fod wedi'i chyfyngu yn ei gallu i weithredu'n annibynnol, neu i ba raddau y gallai fod wedi sicrhau'r gallu i gyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd â'r Prif Gwnstabl. Mae'r nodyn datgelu hwn wedi'i baratoi ar sail datganiadau penodol rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023, mewn perthynas â thrafodion partïon cysylltiedig.

**Llywodraeth Ganolog**
Mae gan y Llywodraeth Ganolog reolaeth effeithiol dros weithrediadau cyffredinol y Prif Gwnstabl ac mae'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol y mae'r Prif Gwnstabl yn gweithredu oddi mewn iddo. Hefyd, mae’n darparu'r rhan fwyaf o'i gyllid ar ffurf grantiau a gyflwynir yn Nodyn 12 - Trethiant ac Incwm Grantiau Amhenodol Datganiad Cyfrifon Grŵp y PCC, ac mae'n pennu telerau llawer o drafodion y Prif Gwnstabl â phartïon eraill (e.e. biliau'r dreth gyngor). Fodd bynnag, mae gan y Comisiynydd reolaeth uniongyrchol dros bolisïau ariannol a gweithredu'r Prif Gwnstabl.

**Aelodau**
Dangosir cyfanswm y lwfansau a'r treuliau a dalwyd i Aelodau yn ystod y flwyddyn yn Nodyn 27 - Lwfansau Aelodau yn Natganiad Cyfrifon Grŵp y PCC. Manylir ar drafodion â’r awdurdodau unedol y mae aelodau o Banel yr Heddlu a Throsedd yn eu cynrychioli yn nodyn 12 o Ddatganiad Cyfrifon Grŵp y PCC - Trethiant ac Incwm Grantiau Amhenodol.

Mae aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio yn Aelod Annibynnol o bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Caerdydd (dechreuodd 2021/22), ac yn ymddiriedolwr Prifysgol Caerdydd (gorffennodd yn ystod 2022/23). Yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23, talodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent gyfanswm o £121,413 i Brifysgol Caerdydd (2021/22 £94,386) am Wasanaethau Fforensig. Ni dderbyniwyd unrhyw incwm. Derbyniodd Cyngor Caerdydd gyfanswm o £148,262 yn ystod 2022/23 (2021/22 £153,724), nid oedd unrhyw falansau credydwyr neu ddyledwyr ar gyfer 2022/23 (2021/22 balans Credydwyr o £6,512).

Mae aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio yn aelod o Fwrdd Coleg Gwent hefyd. Yn ystod 2022/23, talodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd £80 (2021/22 £1,740). Ni dderbyniwyd unrhyw incwm. Cafwyd balans Credydwyr o £385 (2020/22 £0)

**Swyddogion**
Y Prif Swyddog Cynorthwyol - Adnoddau yw Ysgrifennydd y Cwmni i Ymddiriedolaeth Ffilm Annibynnol Gwent (GIFT) Cyf. Gweler Nodyn 42 – Ymddiriedolaeth Ffilm Annibynnol Gwent (GIFT) am wybodaeth ychwanegol. Yn ogystal, mae'r Prif Swyddog Cynorthwyol - Adnoddau wedi bod yn ffrind i Reolwr Masnachol BAM Construction Ltd (BAM) ers blynyddoedd. Mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent gydberthnasau cytundebol gyda BAM mewn perthynas ag adeilad y pencadlys newydd. Yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23, talodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent gyfanswm o £123,097 i BAM (2021/22: £16,201,898) a dim balans credydwyr yn 2022/23 (2021/22 £431,630). Ni dderbyniwyd unrhyw incwm.

## Nodyn 17- Cynllun Pensiwn Buddion Diffiniedig

**Dyfarniad McCloud / Sargeant**
Ar hyn o bryd, mae gan Brif Gwnstabl Gwent, ynghyd â Phrif Gwnstabliaid eraill a'r Swyddfa Gartref, 148 o hawliadau wedi'u cyflwyno yn eu herbyn mewn perthynas â gwahaniaethu anghyfreithlon sy'n deillio o ddarpariaethau trosiannol yn Rheoliadau Pensiwn yr Heddlu 2015. Roedd yr hawliadau hyn yn erbyn Cynllun Pensiwn yr Heddlu (achos Aarons) wedi aros y tu ôl i ddyfarniad McCloud/Sargeant yn flaenorol, ond maent wedi cael eu codi mewn gwrandawiad rheoli achos a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2019. Roedd y Gorchymyn dilynol ar 28 Hydref 2019 yn cynnwys datganiad interim bod gan yr hawlwyr hawl i gael eu trin fel pe baent wedi derbyn amddiffyniad trosiannol llawn a'u bod wedi aros yn eu cynllun presennol ar ôl 1 Ebrill 2015. Mae'r datganiad interim hwn yn berthnasol i hawlwyr yn unig. Serch hynny, gwnaeth y Llywodraeth yn glir y bydd y rheini nad ydynt yn gwneud hawliad sydd yn yr un sefyllfa â'r hawlwyr yn cael eu trin yn deg er mwyn sicrhau nad ydynt yn colli allan. Cafodd hyn ei ail adrodd yn Natganiad Ysgrifenedig y Gweinidog ar 25 Mawrth 2020.

Ar 16 Gorffennaf 2020 cyhoeddodd y Trysorlys ei Ymgynghoriad ar Gynlluniau Pensiwn Gwasanaeth Cyhoeddus: newidiadau i'r cytundeb trosiannol i gynllun 2015, a oedd yn cynnwys y cam unioni arfaethedig. Ar 4 Chwefror 2021 cyhoeddodd y Trysorlys ei ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd yr ymateb hwn yn cadarnhau y byddai cynlluniau gwaddol yn cau o 31 Mawrth 2022, y byddai cam unioni'n cael ei gyflwyno ar gyfer y cyfnod 2015 i 2022 yn seiliedig ar ddewis gohiriedig, a meini prawf dilysrwydd i aelodau gael mynediad at y cam unioni.

Ar 19 Gorffennaf 2021 aethpwyd a'r Ddeddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022 i Dy'r Arglwyddi. Cafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ar 10 Mawrth 2022 a daeth i rym o 1 Ebrill 2022. Cyhoeddwyd cyfarwyddiadau Trysorlys Ei Fawrhydi i gyd-fynd a'r Ddeddf ar 14 Rhagfyr 2022. Caeodd y Ddeddf y cynlluniau gwaddol ar 31 Mawrth 2022, ac mae'r cam unioni ôl-weithredol yn dod i rym erbyn 1 Hydref 2023. Mater i'r Swyddfa Gartref yw ymgynghori ar y rheoliadau eilaidd yn awr i ddod â'r polisi a bennwyd gan y Ddeddf i rym o 1 Hydref 2023. Agorodd yr ymgynghoriad hwn ar 28 Chwefror a chaeodd ar 23 Mai 2023.

**Hawliadau Cyfreithiol**

**Achosion Aarons and Ors**
Roedd hawliadau anaf i deimladau i Aarons i fod i gael eu clywed gan y Tribiwnlys Cyflogaeth yn Rhagfyr 2021, ac ar 25 Tachwedd 2021 ceisiodd yr Ysgrifennydd Cartref gytundeb gan Brif Swyddogion i setlo ar ran heddluoedd. Rhoddwyd caniatâd ac ers hynny mae Adran Gyfreithiol y Llywodraeth wedi setlo ar ran heddluoedd. Gan hynny nid yw'r cyfrifon hyn yn adnabod unrhyw rwymedigaethau o ran hawliadau am iawndal.

**Penningtons**
Gwnaed yr hawliadau hyn ar ôl canfyddiad o wahaniaethu gan y Llys Apêl yn McCloud a Sargeant. Ar 31 Mawrth 2023, nid yw'n bosibl amcangyfrif graddau na thebygrwydd llwyddiant yr hawliadau hyn ac felly nid yw'r cyfrifon hyn yn adnabod unrhyw rwymedigaethau mewn perthynas â hawliadau am iawndal.

**Unioni**
Mae Deddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022 yn deddfu ar gyfer sut bydd y llywodraeth yn dileu'r gwahaniaethu a nodwyd gan y llysoedd yn y ffordd y cyflwynwyd diwygiadau 2015 i rai aelodau.

Prif elfennau'r Ddeddf yw:

- Newidiadau ar draws yr holl brif gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus mewn ymateb i ddyfarniad y Llys Apêl yn achosion McCloud a Sargeant:
- Mae gan aelodau cymwys y prif gynlluniau pensiwn heb eu hariannu ddewis o'r buddion maent yn dymuno eu cymryd ar gyfer y "cyfnod unioni" sef Ebrill 2015 tan 31st Mawrth 2022.
- O 1 Ebrill 2022, pan ddaw'r cyfnod unioni i ben, bydd pawb sy'n gwasanaethu yn y prif gynlluniau heb eu hariannu yn aelodau o'r cynlluniau pensiwn diwygiedig, gan sicrhau triniaeth deg o hynny ymlaen.
- Sicrhau nad oes unrhyw ostyngiadau i fuddion aelodau o ganlyniad i brisiadau rheoli costau 2016.

**Effaith ar Rwymedigaethau Pensiwn**
Byddai caniatáu i'r holl aelodau aros yn eu cynllun presennol fel ar 1 Ebrill 2015 yn arwain at gynnydd yn rhwymedigaethau Cynllun Pensiwn yr Heddlu. Mae actiwarïaid y cynllun wedi amcangyfrif bod y cynnydd posibl yn rhwymedigaethau'r cynllun ar gyfer Heddlu Gwent tua 4.4% neu £62.860 miliwn o rwymedigaethau cynllun pensiwn. Adlewyrchir y cynnydd hwn yn y Datgeliad IAS19 fel Cost Gwasanaeth yn y Gorffennol yng nghyfrifon 2018/19. Mae'r swm hwn wedi cael ei adolygu'n flynyddol ac yn 2021/22 amcangyfrifir mai £148.04 miliwn oedd y gostyngiad yn rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn o'r flwyddyn flaenorol. Yn 2022/23 amcangyfrifir mai £555.35 miliwn yw'r gostyngiad o'r rhwymedigaethau yn 2022/23. Mae'r gostyngiad hwn yn adlewyrchu newid mewn rhagdybiaethau ac felly'n cynrychioli enillion ail fesur a nodir yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant.

Mesurir effaith cynnydd mewn rhwymedigaethau'r cynllun yn sgil dyfarniad McCloud/Sargeant trwy'r broses prisio pensiynau, sy'n pennu cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr a gweithwyr cyflogedig. Bwriedir adrodd ar y prisiad Pensiwn yr Heddlu nesaf yn 2023/24, er y gall yr amserlen hon newid.

Caiff effaith cynnydd mewn taliadau pensiwn blynyddol sy'n deillio o ddyfarniad achos McCloud / Sargeant ei phennu trwy Reoliadau Cronfa Bensiwn yr Heddlu 2007. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod heddlu gynnal cronfa bensiwn sy'n derbyn cyfraniadau gan swyddogion a'r cyflogwr ac yn gwneud taliadau pensiwn i swyddogion sydd wedi ymddeol. Os nad oes gan gronfa bensiwn yr heddlu ddigon o arian i dalu costau pensiynau yn ystod y flwyddyn, bydd y swm sy'n ofynnol i dalu'r diffyg yn cael ei dalu gan yr Ysgrifennydd Gwladol i'r awdurdod heddlu ar ffurf grant atodol gan y Llywodraeth ganolog.

**Cymryd rhan mewn Cynlluniau Pensiwn**

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth Swyddogion yr Heddlu a Staff yr Heddlu, mae'r Prif Gwnstabl yn cyfrannu tuag at gost buddion ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion hyn yn daladwy nes bod gweithwyr cyflogedig yn ymddeol, mae Grŵp y PCC yn ymrwymo i wneud y taliadau (ar gyfer y buddion hynny) a'u datgelu pan fydd gweithwyr cyflogedig yn ennill eu hawl yn y dyfodol.

Mae'r Prif Gwnstabl yn cymryd rhan mewn dau gynllun ôl-gyflogaeth:

(i) Cynllun Pensiwn yr Heddlu ar gyfer Swyddogion yr Heddlu - cynllun heb ei ariannu yw hwn, sy'n golygu nad oes unrhyw asedau buddsoddi wedi'u cronni i dalu'r rhwymedigaethau pensiwn, ac mae'n rhaid cynhyrchu arian parod ar gyfer taliadau pensiwn gwirioneddol yn y flwyddyn pan fyddant yn ddyledus yn y pen draw.

(ii) Mae pensiynau a buddion ar gyfer Staff yr Heddlu yn cael eu darparu o dan Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) (Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol). Cynllun wedi'i ariannu yw hwn, sy'n golygu bod y Prif Gwnstabl a gweithwyr cyflogedig yn talu cyfraniadau i mewn i'r gronfa, a gyfrifir ar lefel sy'n ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng rhwymedigaethau'r pensiwn ac asedau buddsoddi.

**Trafodion yn ymwneud â buddion ôl-gyflogaeth**

Cydnabyddir cost buddion ymddeol yn y gost a gofnodir yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant am wasanaethau pan gânt eu hennill gan weithwyr cyflogedig, yn hytrach na phan fydd y buddiannau'n cael eu talu fel pensiynau yn y pen draw. Fodd bynnag, mae'r tâl sy'n ofynnol yn erbyn y dreth gyngor yn seiliedig ar yr arian sy'n daladwy yn y flwyddyn, felly mae cost wirioneddol buddion ôl-gyflogaeth/ymddeol yn dod allan o'r Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Mae'r trafodion canlynol wedi'u gwneud yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn gan gynnwys datgeliad o wir gyfraniadau'r cyflogwr yn ystod y flwyddyn:

**Trafodion y Gronfa Gyffredinol**

| 2021/22 | | | | 2022/23 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **LGPS ar gyfer CC** | **Pensiwn yr Heddlu** | **Cyfanswm** | | **LGPS ar gyfer CC** | **Pensiwn yr Heddlu** | **Cyfanswm** |
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| | | | **Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant** | | | |
| | | | **Cost Gwasanaethau** | | | |
| | | | Cost y gwasanaeth yn cynnwys: | | | |
| 15,389 | 37,670 | 53,059 | Cost gwasanaeth cyfredol | 15,066 | 30,720 | 45,786 |
| 158 | 0 | 158 | Cost gwasanaeth blaenorol | 276 | 0 | 276 |
| 0 | 310 | 310 | Trosglwyddiadau i mewn | 0 | 410 | 410 |
| 0 | 0 | 0 | (Enillion) / colledion ar gwtogiadau | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 0 | (Enillion) / colledion ar setliadau a/neu drosglwyddiadau | 0 | 0 | 0 |
| 136 | 0 | 136 | Treuliau gweinyddu | 152 | 0 | 152 |
| 0 | 0 | 0 | Gwariant Gweithredu Arall: | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 0 | Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi | 0 | 0 | 0 |
| 2,285 | 31,420 | 33,705 | Cost llog net | 2,594 | 42,820 | 45,414 |
| **17,968** | **69,400** | **87,368** | **Cyfanswm a godir ar Gwarged a Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | **18,088** | **73,950** | **92,038** |

| £'000 | £'000 | £'000 | Buddiannau ôl-gyflogaeth eraill a godir ar y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant | £'000 | £'000 | £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Ail-fesur y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net gan gynnwys: | | | |
| (6,324) | 0 | (6,324) | Enillion ar asedau'r cynllun (ac eithrio'r swm sydd wedi'i gynnwys yn y costau llog net) | 5,627 | 0 | 5,627 |
| 506 | 38,930 | 39,436 | Enillion a cholledion actiwaraidd -profiad | 19,928 | 58,740 | 78,668 |
| (1,383) | 0 | (1,383) | Enillion a cholledion actiwaraidd sy'n deillio o newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig | (13,880) | (26,850) | (40,730) |
| (23,483) | (21,870) | (45,353) | Enillion a cholledion actiwaraidd sy'n deillio o newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol | (117,976) | (570,180) | (688,156) |
| 0 | 0 | 0 | IFRIC 14 Cyfyngu'r Gwarged | 2,651 | 0 | 0 |
| **(30,684)** | **17,060** | **(13,624)** | **Cyfanswm a godir ar y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant arall** | **(103,650)** | **(538,290)** | **(641,940)** |
| **(12,716)** | **86,460** | **73,744** | **Cyfanswm a godir ar y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant** | **(85,562)** | **(464,340)** | **(549,902)** |

| 2021/22 | | | Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn | 2022/23 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| LGPS ar gyfer CC | Pensiwn yr Heddlu | Cyfanswm | | LGPS ar gyfer CC | Pensiwn yr Heddlu | Cyfanswm |
| £'000 | £'000 | £'000 | | £'000 | £'000 | £'000 |
| (17,968) | (69,400) | (87,368) | Gwrthdroi'r taliadau net a wnaed i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | (18,088) | (73,950) | (92,038) |
| | | | Swm gwirioneddol a godir yn erbyn balans y gronfa gyffredinol ar gyfer pensiynau yn y flwyddyn: | | | |
| 4,990 | 39,710 | 44,700 | Cyfraniadau cyflogwyr sy'n daladwy i'r cynllun | 5,743 | 36,010 | 41,753 |

| 2021/22 | | | Asedau a Rhwymedigaethau Pensiynau a Gydnabyddir yn y Fantolen | 2022/23 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| LGPS ar gyfer CC | Pensiwn yr Heddlu | Cyfanswm | | LGPS ar gyfer CC | Pensiwn yr Heddlu | Cyfanswm |
| £'000 | £'000 | £'000 | | £'000 | £'000 | £'000 |
| (262,309) | (1,618,483) | (1,880,792) | Gwerth presennol y rhwymedigaeth ddiffiniedig | (169,005) | (1,118,133) | (1,287,138) |
| 171,004 | 0 | 171,004 | Gwerth teg asedau'r cynllun | 169,005 | 0 | 169,005 |
| (91,305) | (1,618,483) | (1,709,788) | Gwerth Asedau / Rhwymedigaethau | 0 | (1,118,133) | (1,118,133) |
| 0 | 0 | 0 | Symudiadau eraill yn y (rhwymedigaeth) / ased | 0 | 0 | 0 |
| **(91,305)** | **(1,618,483)** | **(1,709,788)** | **(Rhwymedigaeth) /ased net sy'n deillio o'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig** | **0** | **(1,118,133)** | **(1,118,113)** |

| 2021/22 | | | Symudiad yng Ngwerth Asedau'r Cynllun | 2022/23 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| LGPS ar gyfer CC | Pensiwn yr Heddlu | Cyfanswm | | LGPS ar gyfer CC | Pensiwn yr Heddlu | Cyfanswm |
| £'000 | £'000 | £'000 | | £'000 | £'000 | £'000 |
| 158,024 | 0 | 158,024 | Gwerth teg agoriadol asedau'r cynllun | 171,004 | 0 | 171,004 |
| 3,193 | 0 | 3,193 | Incwm llog | 4,667 | 0 | 4,667 |
| | | | Enillion/(colledion) ail-fesur: | | | |
| 6,324 | 0 | 6,324 | - Yr enillion ar asedau'r cynllun, ac eithrio'r swm sydd wedi'i gynnwys yn y costau llog net | (5,627) | 0 | (5,627) |
| 0 | 0 | 0 | Enillion/(colledion) eraill | (2,356) | 0 | (2,356) |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4,990 | 39,710 | 44,700 | Cyfraniadau gan y cyflogwr | 5,743 | 36,010 | 41,753 |
| 1,783 | 6,530 | 8,313 | Cyfraniadau gan weithwyr cyflogedig i'r cynllun | 2,023 | 6,880 | 8,903 |
| 0 | 0 | 0 | Trosglwyddiadau i mewn | 0 | 0 | 0 |
| (3,310) | (46,240) | (49,550) | Buddion / trosglwyddiadau a dalwyd | (3,798) | (42,890) | (46,688) |
| 0 | 0 | 0 | IFRIC 14 Cyfyngu'r Gwarged | (2,651) | | (2,651) |
| **171,004** | **0** | **171,004** | **Gwerth terfynol asedau'r cynllun** | **169,005** | **0** | **169,005** |

| | **2021/22** | | **Symudiadau yng Ngwerth Teg Rhwymedigaethau'r Cynllun** | | **2022/23** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **LGPS ar gyfer CC** | **Pensiwn yr Heddlu** | **Cyfanswm** | | **LGPS ar gyfer CC** | **Pensiwn yr Heddlu** | **Cyfanswm** |
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| (267,035) | (1,571,733) | (1,838,768) | Balans Agoriadol ar 1 Ebrill | (262,309) | (1,618,483) | (1,880,792) |
| (15,389) | (37,670) | (53,059) | Cost gwasanaeth cyfredol | (15,066) | (30,720) | (45,786) |
| (5,478) | (31,420) | (36,898) | Cost llog | (7,261) | (42,820) | (50,081) |
| (1,783) | (6,530) | (8,313) | Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun | (2,023) | (6,880) | (8,903) |
| | | | Enillion a cholledion ail-fesur: | | | |
| (506) | (38,930) | (39,436) | - Enillion/(colledion) actiwaraidd - profiad | (17,572) | (58,740) | (76,312) |
| 1,383 | 0 | 1,383 | - Enillion/(colledion) actiwaraidd o newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig | 13,880 | 26,850 | 40,730 |
| 23,483 | 21,870 | 45,353 | - Enillion/(colledion) actiwaraidd o newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol | 117,976 | 570,180 | 688,156 |
| 0 | 0 | 0 | - Arall | 0 | 0 | 0 |
| (158) | 0 | (158) | Cost gwasanaeth blaenorol | (276) | 0 | (276) |
| 0 | 0 | 0 | Enillion / (colledion) ar gwtogiadau | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 0 | Rhwymedigaethau ar gyfuniadau endid | 0 | 0 | 0 |
| 0 | (310) | (310) | Trosglwyddiadau i mewn | 0 | (410) | (410) |
| 3,310 | 46,240 | 49,550 | Buddion / trosglwyddiadau a dalwyd | 3,798 | 42,890 | 46,688 |
| (136) | 0 | (136) | Treuliau gweinyddu | (152) | 0 | (152) |
| 0 | 0 | 0 | Rhwymedigaethau a ddyddymwyd ar setliadau | 0 | 0 | 0 |
| **(262,309)** | **(1,618,483)** | **(1,880,792)** | **Balans ar 31 Mawrth** | **(169,005)** | **(1,118,133)** | **(1,287,138)** |

Mae'r rhwymedigaethau yn dangos yr ymrwymiadau sylfaenol sydd gan y Prif Gwnstabl i dalu buddion ymddeol yn y pen draw. Mae cyfanswm y rhwymedigaeth gwerth £1.287 biliwn (2021/22: £1.881 biliwn) yn cael effaith sylweddol ar werth net y Prif Gwnstabl fel y'i cofnodir yn y Fantolen, gan arwain at falans cyffredinol negyddol o £1.118biliwn (2021/22: £1.710 biliwn).

Fodd bynnag, mae trefniadau statudol ar gyfer ariannu'r diffyg yn golygu bod sefyllfa ariannol y Prif Gwnstabl yn parhau i fod yn iach:

(i) Bydd y diffyg ar y Cynllun Llywodraeth Leol yn cael ei dalu trwy gynyddu cyfraniadau dros weddill bywyd gwaith gweithwyr cyflogedig, yn unol ag asesiad Actiwari'r Cynllun; a
(ii) Dim ond pan fydd y pensiynau'n cael eu talu y mae angen darparu ar gyfer pensiynau'r Heddlu.

Nid yw'r Prif Gwnstabl yn agored i rwymedigaethau endidau eraill dan delerau ac amodau cynllun Pensiwn Swyddogion yr Heddlu a chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Pe byddai'r Prif Gwnstabl yn gadael y cynlluniau hyn, byddai'r asedau a rhwymedigaethau sy'n berthnasol i swyddogion a staff yr Heddlu yn unig, yn y gorffennol a'r presennol, yn cael eu cyfrifo a'u trosglwyddo i unrhyw gynllun newydd.

## Sylfaen ar gyfer Amcangyfrif Asedau a Rhwymedigaethau

Nid oes angen nodi'r enillion disgwyliedig ar asedau yn IAS19 gan fod y gyfradd ddisgownt (4.75% ar gyfer Llywodraeth Leol a 4.65% ar gyfer yr Heddlu) bellach yn cael ei defnyddio gan yr Actiwari i gyfrifo'r costau rhagamcanol ar gyfer y flwyddyn nesaf a phennu'r enillion disgwyliedig ar asedau.

Mae'r rhaniad bras o asedau ar gyfer y Gronfa yn ei chyfanrwydd (yn seiliedig ar ddata sydd wedi'i ddarparu gan yr Actiwari) i'w weld isod:

**Rhaniad Asedau**

| | Llywodraeth Leol (Prif Gwnstabl) | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **2021/22 Ailddatgan £'000** | **2021/22 Ailddatgan %** | **2022/23 £'000** | **2022/23 %** |
| **Rhaniad Asedau** | | | | |
| Sicrhad Ecwiti | 0 | 0.00% | 0 | 0.00% |
| Cronfeydd Buddsoddi ac Ymddiriedolaethau Unedau | 166,184 | 97.18% | 167,289 | 97.45% |
| Eiddo Tirol | 3,914 | 2.29% | 3,476 | 2.03% |
| Arian Parod a Chyfwerth ag Arian Parod | 906 | 0.53% | 891 | 0.52% |
| Cyfanswm | **171,004** | **100%** | **171,656** | **100%** |

Mae rhaniad asedau 2021/22 wedi cael ei ailddatgan yn unol â chategoreiddiad 2022/23.

Mae'r amcangyfrif o'r rhwymedigaethau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd a nodir yn y tabl uchod. Mae'r dadansoddiadau o sensitifrwydd isod yn seiliedig ar newidiadau rhesymol posibl i'r rhagdybiaethau ar ddiwedd y cyfnod adrodd, ac ar gyfer pob newid maent yn rhagdybio bod y rhagdybiaeth sydd wedi'i dadansoddi yn newid tra bod yr holl ragdybiaethau eraill yn aros yn gyson. Er enghraifft, mae'r rhagdybiaethau mewn hirhoedledd yn tybio bod disgwyliad oes yn cynyddu neu'n gostwng ar gyfer dynion a menywod. Yn ymarferol, mae hyn yn annhebygol o ddigwydd, a gall newidiadau mewn rhai o'r rhagdybiaethau fod yn gysylltiedig. Mae'r amcangyfrifon yn y dadansoddiad o sensitifrwydd wedi dilyn y polisïau cyfrifo ar gyfer y cynllun, h.y. ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu credyd unedau. Roedd y dulliau a'r mathau o ragdybiaethau a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad o sensitifrwydd isod yr un fath â'r rhai yn y cyfnod blaenorol.

| | Pensiwn yr Heddlu | | (Grŵp) Llywodraeth Leol | |
|---|---|---|---|---|
| | **Blynyddoedd 2021/22** | **Blynyddoedd 2022/23** | **Blynyddoedd 2021/22** | **Blynyddoedd 2022/23** |
| **Rhagdybiaethau marwolaeth** | | | | |
| **Hirhoedledd yn 65 ar gyfer pensiynwyr presennol:** | | | | |
| Dynion | 22.10 | 21.90 | 20.50 | 20.30 |
| Menywod | 23.80 | 23.50 | 23.20 | 23.20 |
| **Hirhoedledd yn 65 ar gyfer pensiynwyr y dyfodol:** | | | | |
| Dynion | 23.80 | 23.50 | 21.80 | 21.40 |
| Menywod | 25.40 | 25.00 | 25.10 | 25.10 |

| | Pensiwn yr Heddlu | | (Grŵp) Llywodraeth Leol | |
|---|---|---|---|---|
| | 2021/22 % y flwyddyn | 2022/23 % y flwyddyn | 2021/22 % y flwyddyn | 2022/23 % y flwyddyn |
| Cyfradd cynnydd mewn cyflogau (tymor hir) | 4.75% | 3.85% | 3.50% | 3.45% |
| Cyfradd cynnydd mewn cyflogau (tymor byr) | 0.00% | 0.00% | 0.00% | 0.00% |
| Cyfradd cynnydd mewn pensiynau | 3.00% | 2.60% | 3.20% | 2.95% |
| Cyfradd ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau'r cynllun | 2.65% | 4.65% | 2.70% | 4.75% |
| Cyfradd ailbrisio CARE | 4.25% | 3.85% | 0.00% | 0.00% |

**Newid mewn Rhagdybiaethau**

| | Pensiwn yr Heddlu | | Llywodraeth Leol | | Llywodraeth Leol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Brasamcan o gynnydd / (gostyngiad) mewn rhagdybiaeth | | % cynnydd bras mewn Atebolrwydd Cyflogwr | Cyfanswm ariannol bras | % cynnydd bras mewn Atebolrwydd Cyflogwr | Cyfanswm ariannol bras |
| | | | PCC | PCC | Prif Gwnstabl | Prif Gwnstabl |
| | % | £'000 | % | £'000 | % | £'000 |
| cynnydd 0.5% yn y gyfradd disgownt gwirioneddol | (8.00%) | (89,000) | 0.00% | 0 | 0.00% | 0 |
| gostyngiad 0.1% yn y gyfradd disgownt gwirioneddol | 0.00% | 0 | 2.00% | 150 | 2.00% | 3,776 |
| Cynnydd o flwyddyn yn nisgwyliad oes aelodau | 2.50% | 29,000 | 4.00% | 269 | 4.00% | 6,760 |
| Cynnydd 0.5%/0.1% yn y Gyfradd Cynnydd Cyflogau | 1.00% | 12,000 | 0.00% | 30 | 0.00% | 526 |
| Cynnydd o 0.5%/0.1% yn y Gyfradd Cynnydd Pensiwn | 8.00% | 87,000 | 2.00% | 122 | 2.00% | 3,305 |

Yn dilyn y Prisiad Tair Blynedd diwethaf a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2022 ar LGPS, dyma'r Cyfraddau Cyfraniadau ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r 2 flynedd nesaf:

| Cyfraddau Ardystiedig arfaethedig ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben | |
|---|---|
| 31 Mawrth 2023 | 17.8% |
| 31 Mawrth 2024 | 18.3% |
| 31 Mawrth 2025 | 18.8% |

## Nodyn 18 - Asedau a Rhwymedigaethau Amodol

Nid oes gan y Prif Gwnstabl unrhyw asedau amodol neu rwymedigaethau amodol nad ydynt wedi cael eu datgelu eisoes yn y Nodiadau i'r Datganiad Cyfrifon.

## Nodyn 19 – Cydweithio

Mae gan heddluoedd yng Nghymru hanes hir a llwyddiannus o gydweithio i ddatblygu meysydd plismona arbenigol. Mae hyn yn cynnwys meysydd a oedd yn rhan o gylch gwaith Cydbwyllgor Awdurdodau Heddlu Cymru gynt. Bydd cydweithio yn y dyfodol yn cael ei lywio gan yr angen i fodloni'r Gofyniad Plismona Strategol a gan ganlyniadau'r Asesiad Strategol Rhanbarthol o fygythiadau, risgiau a niwed i ranbarth deheuol Cymru. Bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer pob heddlu yn gyfrifol am sicrhau bod y gofyniad plismona strategol yn cael ei fodloni. Fel rhan o hyn, byddant yn ceisio gweithio gyda'r Comisiynwyr a'r heddluoedd eraill i ddarparu'r gwasanaeth mwyaf effeithiol posibl. Rheoleiddir cytundebau o'r fath gan Adran 22A o Ddeddf yr Heddlu 1996, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

Mae'r gwasanaethau cydweithredol a'u cyllid yn parhau o dan drefniadau Llywodraethu'r Comisiynydd a'r Heddlu diwygiedig. I bob diben, mae'r rhain yn cael eu hystyried yn 'Gyllidebau Cyfun' gyda chytundebau ar gyfer Cyfraniadau Ariannu sy'n cael eu gwneud a'u hamrywio o bryd i'w gilydd, a rhai Grantiau Penodol y Llywodraeth. Mae'r cyllidebau cyfun yn cael eu cynnal gan y Comisiynydd a'r Heddlu ar gyfer Heddlu De Cymru ar ran y pedwar Heddlu yng Nghymru. Dangosir crynodeb o gost y gwasanaethau cydweithredol amrywiol sydd i'w priodoli i Grŵp y PCC yn y tabl canlynol ac mae'n cynnwys y Gwasanaethau Caffael ar y Cyd a gafodd eu rhoi ar waith yn ffurfiol yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21.

**Costau 2022/23 y gwasanaethau cydweithredol amrywiol y gellir eu priodoli i Grŵp y PCC**.

| **CYFRAN GWASANAETHAU CYDWEITHREDOL**<br><br>**Mantais gwasanaethu cydweithredol 2022/23** | **Uned Cudd-wybodaeth Gwrthderfysgaeth / Special Branch** | **Cynghorwyr Arbenigol Gwrthderfysgaeth (CTSA)** | **Porth Gwrthderfysgaeth / Diogelwch Pwrpasol (DSP)** | **Uned Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol (ROCU)** | **Tasglu Rhanbarthol (RTF)** | **Adran Gwasanaethau Digidol** | **Gwasanaethau Cyfreithiol ar y Cyd (JLS)** | **Uned Ymchwil Gwyddonol (JSIU)** | **Uned Arfau Tanio ar y Cyd (JFU / CTSFO)** | **Gwasanaethau Caffael ar y Cyd** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Gwariant Gros** | | | | | | | | | | | |
| Heddlu De Cymru | 4,528 | 251 | 1,081 | 5,943 | 1,262 | 2,858 | 983 | 4,697 | 8,109 | 312 | **30,024** |
| Heddlu Dyfed Powys | 1,778 | 99 | 425 | 2,334 | 478 | 0 | 0 | 0 | 4,865 | 0 | **9,979** |
| Heddlu Gwent | 2,027 | 113 | 484 | 2,661 | 610 | 1,539 | 491 | 2,289 | 3,243 | 312 | **13,769** |
| Heddlu Gogledd Cymru | 2,368 | 131 | 2,113 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **4,612** |
| | **10,701** | **594** | **4,103** | **10,938** | **2,350** | **4,397** | **1,474** | **6,986** | **16,217** | **624** | **58,384** |
| **Cyfanswm Incwm a Grantiau** | | | | | | | | | | | |
| Heddlu De Cymru | (4,528) | (251) | (1,081) | (3,157) | (22) | 0 | 0 | (62) | (1,082) | 0 | (10,183) |
| Heddlu Dyfed Powys | (1,778) | (99) | (425) | (1,244) | (9) | 0 | 0 | 0 | (649) | 0 | (4,204) |
| Heddlu Gwent | (2,027) | (113) | (484) | (1,402) | (11) | 0 | 0 | (30) | (433) | 0 | (4,500) |
| Heddlu Gogledd Cymru | (2,368) | (131) | (2,113) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (4,612) |
| | **(10,701)** | **(594)** | **(4,103)** | **(5,803)** | **(42)** | **0** | **0** | **(92)** | **(2,164)** | **0** | **(23,499)** |

O ganlyniad i ofyniad IFRS11 - Trefniadau ar y Cyd, mae gwariant gros yn y CIES wedi cynyddu £0.026 miliwn ac mae incwm gros wedi cynyddu £.631 miliwn. Roedd gostyngiad net mewn gwariant o £ 0.605 miliwn (2021/22: gostyngiad o £0.505 miliwn mewn gwariant). Mae'r gostyngiad net hwn wedi cael ei wrthdroi yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd heb unrhyw effaith ar Gronfa'r Heddlu.

**Costau 2021/22 y gwasanaethau cydweithredol amrywiol y gellir eu priodoli i Grŵp y PCC.**

| CYFRAN GWASANAETHAU CYDWEITHREDOL | Uned Cudd-wybodaeth Gwrthderfysgaeth (CTIU) | Cynghorwyr Arbenigol Gwrthderfysgaeth (CTSA) | Porth Gwrthderfysgaeth / Diogelwch Pwrpasol (DSP) | Uned Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol (ROCU) | Tasglu Rhanbarthol (RTF) | Adran Gwasanaethau Digidol | Gwasanaethau Cyfreithiol ar y Cyd (JLS) | Uned Ymchwil Gwyddonol (JSIU) | Uned Arfau Tanio ar y Cyd (JFU / CTSFO) | Gwasanaethau Caffael ar y Cyd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mantais gwasanaethu cydweithredol 2021/22** | | | | | | | | | | | |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Gwariant Gros** | | | | | | | | | | | |
| Heddlu De Cymru | 3,114 | 241 | 1,036 | 4,755 | 1,308 | 2,929 | 926 | 4,456 | 7,725 | 300 | **26,790** |
| Heddlu Dyfed Powys | 1,210 | 94 | 402 | 1,848 | 495 | 0 | 0 | 0 | 4,635 | 0 | **8,684** |
| Heddlu Gwent | 1,385 | 107 | 461 | 2,114 | 633 | 1,577 | 463 | 2,042 | 3,090 | 300 | **12,172** |
| Heddlu Gogledd Cymru | 1,628 | 126 | 2,308 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **4,062** |
| **Cyfanswm** | **7,337** | **568** | **4,207** | **8,717** | **2,436** | **4,506** | **1,389** | **6,498** | **15,450** | **600** | **51,708** |
| **Cyfanswm Incwm a Grantiau** | | | | | | | | | | | |
| Heddlu De Cymru | (3,114) | (241) | (1,036) | (2,774) | (25) | 0 | 0 | (5) | (809) | 0 | (8,004) |
| Heddlu Dyfed Powys | (1,210) | (94) | (402) | (1,078) | (9) | 0 | 0 | 0 | (486) | 0 | (3,279) |
| Heddlu Gwent | (1,385) | (107) | (461) | (1,234) | (12) | 0 | 0 | (2) | (324) | 0 | (3,525) |
| Heddlu Gogledd Cymru | (1,628) | (126) | (2,308) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (4,062) |
| **Cyfanswm** | **(7,337)** | **(568)** | **(4,207)** | **(5,086)** | **(46)** | **0** | **0** | **(7)** | **(1,619)** | **0** | **(18,870)** |

**Cydweithio - Canolfan Gwasanaeth Adnoddau a Rennir**

Ym mis Mai 2011, ymrwymodd Awdurdod Heddlu Gwent i drefniant cydweithredol yn y sector cyhoeddus, sef Gwasanaeth Adnoddau a Rennir (SRS), gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Chyngor Sir Fynwy. Yn ystod 2017-18, ymunodd Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Sir Blaenau Gwent â'r trefniant cydweithio.

Mae memorandwm cyd-ddealltwriaeth ar waith i ddarparu trefniadau llywodraethu cadarn. Nid yw'r trefniant yn endid cyfreithiol ar wahân ac mae perchnogaeth o safle'r SRS yn eiddo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Yn 2022/23, roedd cyfraniadau’r partneriaid yn ddigon i dalu’n llawn am y gwariant a ysgwyddwyd.

## Nodyn 20 - Ymddiriedolaeth Ffilm Annibynnol Gwent (GIFT)

Mae'r Prif Gwnstabl yn tanysgrifio i Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu GIFT (Gwent), sef Cwmni Cyfyngedig drwy Warant (Rhif Cofrestru'r Cwmni 7327539) ac elusen gofrestredig (Rhif Cofrestru Elusen 1141278).

Amcanion yr Elusen yw hyrwyddo datblygiad addysg y cyhoedd ar gyfer materion fel ymddygiad gwrthgymdeithasol, diogelwch ar y ffyrdd, diogelwch personol a diogelwch cymunedol er mwyn ceisio lleihau nifer y damweiniau ar y ffordd, a'u difrifoldeb, a lleihau achosion troseddu.

Ar 31 Mawrth 2023 roedd gan GIFT (Gwent) ddau ymddiriedolwr. Mae Nigel Stephens, Prif Swyddog Cynorthwyol Adnoddau, sy'n aelod o staff y Prif Gwnstabl, yn gweithredu fel Ymddiriedolwr / Cyfarwyddwr, ac mae ail Ymddiriedolwr, Rhodri Williams yn gweithredu fel Cadeirydd annibynnol.

Mae atebolrwydd aelodau wedi'i gyfyngu i £1, sef y swm y mae pob aelod yn ymrwymo i'w gyfrannu at asedau'r Elusen os bydd yn cael ei ddirwyn i ben. Os diddymir yr Elusen, mae'n rhaid i'r asedau (os oes rhai) sy'n weddill ar ôl gwneud darpariaeth ar gyfer ei holl rwymedigaethau gael eu defnyddio at un neu fwy o'r dibenion canlynol:

(i) Trwy drosglwyddo i un neu fwy o gyrff eraill a sefydlwyd at ddibenion elusennol yn unig, yn unol â'r Gwrthrychau neu'n debyg iddynt;
(ii) Yn uniongyrchol i'r Gwrthrychau neu'r dibenion elusennol yn unol â'r Gwrthrychau neu'n debyg iddynt; neu
(iii) Mewn modd arall sy'n gyson â statws elusennol fel y mae'r Comisiwn yn ei gymeradwyo'n ysgrifenedig ymlaen llaw.

Mae GIFT (Gwent) yn un o is-gwmnïau Prif Gwnstabl Gwent a Grŵp y PCC. Fodd bynnag, nid oes unrhyw asedau neu rwymedigaethau'r elusen wedi'u cynnwys ym Mantolen y Prif Gwnstabl a Grŵp y PCC ar sail perthnasedd.

Roedd yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol archwiliedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022 yn datgelu asedau cyfredol net o £1,340 (2021/22 £1,516) ac yn cadw colled am y flwyddyn o £176 (2021/22 elw o £8,408).

## Geirfa

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| 2022/23 | Mae hyn yn cyfeirio at gyfnod y cyfrifon hyn - 1 Ebrill 2022 tan 31 Mawrth 2023. |
| 2021/22 | Mae hyn yn cyfeirio at gyfnod ariannol y flwyddyn flaenorol at ddibenion cymharu - 1 Ebrill 2021 tan 31 Mawrth 2022 |
| Polisïau Cyfrifyddu | Cyfres o reolau a chodau ymarfer yw'r rhain sy'n cael eu defnyddio gan y Prif Gwnstabl wrth baratoi'r cyfrifon. |
| Croniadau | Y driniaeth gyfrifyddu sy'n cofnodi incwm a gwariant pan gaiff ei ennill neu ei ysgwyddo, nid pan gaiff yr arian ei dderbyn neu ei dalu. |
| Enillion a Cholledion Actiwaraidd | Ar gyfer cynllun pensiwn â buddion diffiniedig, y newidiadau mewn diffygion neu wargedion actiwaraidd sy'n codi:<br>• Nid yw digwyddiadau wedi cyfateb i'r rhagdybiaethau actiwaraidd a wnaed yn y prisiad diwethaf; neu<br>• Mae'r rhagdybiaethau actiwaraidd wedi newid. |
| Amorteiddiad | Mae hyn yn mesur treulio, defnyddio neu ostyngiad arall yn oes ddefnyddiol asedau anniriaethol. |
| Mantolen | Mae hyn yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan y Prif Gwnstabl. Mae asedau net y Prif Gwnstabl (asedau llai rhwymedigaethau) yn cyfateb i'r cronfeydd wrth gefn sy'n cael eu cadw gan y Prif Gwnstabl. |
| Cyfrif Addasiad Cyfalaf | Cyfrif sy'n cronni (ar yr ochr ddebyd) y broses o ddileu cost hanesyddol asedau sefydlog wrth iddynt gael eu defnyddio gan ddibrisiant ac amhariadau, neu eu dileu ar waredu, ac (ar yr ochr gredyd) yr adnoddau sydd wedi'u neilltuo er mwyn ariannu gwariant cyfalaf. |
| Gwariant Cyfalaf | Gwariant ar gaffael ac adeiladu asedau, neu wariant sy'n ychwanegu at werth ased sy'n bodoli eisoes, sydd â gwerth hirdymor i'r Grŵp, e.e. tir ac adeiladau. |
| Derbyniadau Cyfalaf | Incwm o werthu asedau sefydlog, y gellir ond eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf newydd neu ad-dalu dyledion sydd heb eu talu ar asedau sydd wedi'u hariannu o fenthyciadau.<br>Mae derbyniadau cyfalaf y gellir eu defnyddio yn dderbyniadau cyfalaf nad ydynt wedi'u neilltuo at ddibenion penodol ond sydd ar gael i'w defnyddio ar gyfer unrhyw bryniannau cyfalaf. |
| Gwerth Cario | Gwerth cario ased neu rwymedigaeth a gofnodir yn y Fantolen. |
| CIPFA | Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, un o'r cyrff cyfrifyddiaeth proffesiynol yn y DU. Mae CIPFA yn arbenigo mewn gwasanaethau cyhoeddus ac mae'n gyfrifol am bennu safonau cyfrifyddu ar gyfer y gwasanaethau hyn. |
| Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant | Mae'r datganiad hwn yn dangos y gost gyfrifyddu yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. |
| Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) | Mesur swyddogol lefel gyffredinol chwyddiant fel y'i hadlewyrchir ym mhris manwerthu nwyddau a gwasanaethau - ac eithrio taliadau llog morgais, y dreth gyngor a chostau tai eraill. |
| Asedau neu Rwymedigaethau Digwyddiadol | Dyma'r symiau a allai fod yn ddyledus i neu gan unigolion neu sefydliadau sy'n gallu codi yn y dyfodol ond na ellir eu pennu'n fanwl ar hyn o bryd, ac nad oes darpariaeth wedi'i gwneud ar eu cyfer yng nghyfrifon y Prif Gwnstabl. |
| Credydwyr | Unigolion neu sefydliadau y mae'n rhaid i'r Prif Gwnstabl dalu arian iddynt ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn y tymor byr (o fewn 12 mis) a'r hirdymor. |
| Asedau Cyfredol | Mae asedau cyfredol yn eitemau y gellir eu trosi'n hawdd yn arian parod.<br>Yn ôl confensiwn, trefnir yr eitemau trwy gyfeirio at ba mor hawdd y gellir trosi'r eitemau yn arian parod. |
| Rhwymedigaethau Cyfredol | Mae rhwymedigaethau cyfredol yn eitemau sy'n ddyledus ar unwaith neu yn y tymor byr. |
| Cost Gwasanaeth Cyfredol (pensiynau) | Amcangyfrif o gost economaidd wirioneddol cyflogi pobl mewn blwyddyn ariannol. Mae'n mesur y rhwymedigaeth lawn yr amcangyfrifir ei bod wedi'i chreu yn ystod y flwyddyn. |
| Cwtogi | Newidiadau mewn rhwymedigaethau sy'n ymwneud â gweithredoedd sy'n rhyddhau'r cyflogwr o brif gyfrifoldeb am rwymedigaeth pensiwn (e.e. grŵp o weithwyr yn cael ei drosglwyddo i gynllun arall) neu ddigwyddiadau sy'n lleihau blynyddoedd disgwyliedig gwasanaeth gweithwyr cyflogedig yn y dyfodol neu'n lleihau croniad buddion diffiniedig dros eu gwasanaeth yn y dyfodol ar gyfer rhai gweithwyr cyflogedig (e.e. cau uned fusnes). |
| Dyledwyr | Unigolion neu sefydliadau y mae arnynt arian i'r Prif Gwnstabl ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn y tymor byr (o fewn 12 mis) a'r hirdymor. Sylwer bod pob Dyledwr Masnachol yn cael ei gofnodi ym Mantolen Grŵp y PCC. |

| | |
|---|---|
| Cynllun Buddion Diffiniedig | Pensiwn neu gynllun buddion ymddeol arall ac eithrio cynllun cyfraniadau diffiniedig. Fel arfer, mae rheolau'r cynllun yn diffinio'r buddion yn annibynnol ar y cyfraniadau sy'n daladwy, ac nid oes gan y buddion gysylltiad uniongyrchol â buddsoddiadau'r cynllun. Gallent fod yn gynlluniau wedi'u hariannu neu heb eu hariannu. |
| Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig | Pensiwn neu gynllun buddion ymddeol arall y mae cyflogwr yn talu cyfraniadau rheolaidd iddo ar sail swm neu ganran tâl. Ni fydd ganddo unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol nac adeiladol i dalu rhagor o gyfraniadau os nad oes gan y cynllun ddigon o asedau i dalu'r holl fuddion sy'n ymwneud â gwasanaeth gweithiwr cyflogedig yn y cyfnodau presennol a blaenorol. |
| Dibrisiant | Mae hyn yn mesur treulio, defnyddio neu ostyngiad arall yn oes economaidd defnyddiol Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar. |
| Gwerth Teg | Gwerth teg ased yw'r pris y gellid ei gyfnewid mewn trafodiad hyd braich llai, lle y bo'n berthnasol, unrhyw grantiau sy'n dderbyniadwy tuag at brynu'r ased. |
| Les Cyllid | Les sy'n trosglwyddo holl risgiau a buddion perchenogaeth ased sefydlog i'r lesddeiliad. Gellir rhagdybio y bydd trosglwyddo risgiau a buddion yn digwydd os bydd gwerth presennol taliadau sylfaenol y les, gan gynnwys unrhyw daliad cychwynnol, yn cyfateb i werth teg yr ased sy'n cael ei lesio yn y dechrau. |
| Offeryn Ariannol | Unrhyw gontract sy'n arwain at ased ariannol un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti endid arall.<br><br>Mae offeryn ariannol deilliadol yn gontract ariannol sy'n deillio o newidiadau mewn asedau neu fynegrifau sylfaenol. |
| Asedau Sefydlog | Mae'r rhain yn eitemau fel tir, adeiladau, cerbydau ac eitemau cyfarpar mawr, sy'n rhoi budd i'r Prif Gwnstabl dros fwy na blwyddyn. Sylwer bod yr holl Asedau Sefydlog yn cael eu dal gan y PCC. |
| FRS | Safonau Adrodd Ariannol, fel y'u cytunwyd gan y proffesiwn cyfrifyddiaeth yn y DU ac yn rhyngwladol, a gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu. Mae'r rhain yn cynnwys Datganiadau o Arfer Cyfrifyddu Safonol (SSAPs) a Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). |
| Cronfa Gyffredinol | Dyma brif gronfa refeniw Grŵp y PCC ac mae'n cynnwys cost net yr holl wasanaethau sy'n cael eu hariannu gan drethdalwyr lleol a grantiau'r Llywodraeth. Mae'r holl Gronfeydd Wrth Gefn yn cynnwys y Gronfa Gyffredinol yn cael eu dal gan y PCC. |
| Grŵp | Mae'r term yn cyfeirio at uno Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl. |
| Amhariad | Gostyngiad yng ngwerth ased sefydlog, o dan ei swm cario yn y fantolen. Mae ffactorau'n cynnwys tystiolaeth bod yr ased wedi darfod neu wedi dioddef niwed ffisegol. |
| Asedau Anniriaethol | Nid oes gan asedau o'r fath sylwedd ffisegol ond gellir eu hadnabod a'u rheoli gan y Prif Gwnstabl. Mae enghreifftiau'n cynnwys meddalwedd, trwyddedau a phatentau. Sylwer bod yr holl Asedau Anniriaethol yn cael eu dal gan y PCC. |
| Cost Llog (Pensiynau) | Ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig, y cynnydd disgwyliedig yn ystod y cyfnod yng ngwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun gan fod y buddion un cyfnod yn nes at y setliad. |
| Rhestrau | Symiau stociau nas defnyddiwyd sy'n cael eu cadw gan fod ddisgwyl eu defnyddio yn y dyfodol ar ddyddiad y Fantolen. |
| Costau Prydlesu | Dyma lle caiff rhent ei dalu am ddefnyddio ased am gyfnod penodol. Mae dau fath o les yn bodoli: lesau cyllid a lesau gweithredu. |
| Perthnasedd | Byddai eitem yn cael ei hystyried yn berthnasol i'r datganiadau ariannol pe na byddai'r datganiadau ariannol, trwy hepgor neu beidio â datgelu'r eitem, yn dangos darlun gwir a theg. |
| Darpariaeth Isafswm Refeniw | Y swm doeth y mae'n ofynnol yn statudol i'r Prif Gwnstabl ei neilltuo o gronfeydd refeniw i ad-dalu benthyciadau sy'n cefnogi buddsoddiad cyfalaf. Sylwer mai'r PCC sy'n ei ddarparu. |
| Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn | Mae'r datganiad ariannol hwn yn cyflwyno'r symudiad mewn cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio a'r rhai na ellir eu defnyddio. |
| Gwerth Llyfr Net (NBV) | Swm asedau sefydlog yn y fantolen h.y. eu cost hanesyddol neu eu gwerth cyfredol llai'r symiau cronnus a ddarperir ar gyfer dibrisiant. |
| Gwerth Gwireddadwy Net (NRV) | Gwerth marchnad agored ased yn ei ddefnydd presennol (neu ei werth ar y farchnad agored os yw'n ased anweithredol) llai'r costau i'w hysgwyddo wrth wireddu'r ased. |
| Prydles Weithredu | Mae prydles weithredu yn golygu bod y lesddeiliad yn talu rhent am logi ased am gyfnod sy'n llai o lawer na'i oes economaidd ddefnyddiol. Mae'r lesydd yn cadw'r rhan fwyaf o risgiau a buddion perchenogaeth. |
| Cost Gwasanaeth Blaenorol | Ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig mae'r rhain yn deillio o benderfyniadau sydd wedi'u gwneud yn y flwyddyn gyfredol ond y mae eu heffaith ariannol yn deillio o flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd blaenorol. |
| PCC | Y talfyriad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Mae'r PCC yn gorfforaeth undyn ar wahân a sefydlwyd ar 22 Tachwedd 2012 o dan Ddeddf yr Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011. Cyfeirir ato fel Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd hefyd. |

| | |
|---|---|
| Menter Cyllid Preifat (PFI) | Menter gan y Llywodraeth ganolog sy'n ceisio cynyddu lefel y cyllid sydd ar gael i wasanaethau cyhoeddus trwy ddenu ffynonellau cyllid preifat. |
| Praesept | Y swm sy’n cael ei godi a’i gasglu gan bum Awdurdod Gwent (Casnewydd, Caerffili, Blaenau Gwent, Sir Fynwy a Thorfaen) a’i dalu i Grŵp y PCC. |
| Darpariaethau | Gall y Prif Gwnstabl neilltuo symiau fel darpariaethau i dalu am rwymedigaethau neu golledion sy'n debygol o godi yn y dyfodol. Mae unrhyw ddarpariaethau a wneir yn cael eu cofnodi yn Natganiad Cyfrifon Grŵp y PCC. |
| Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) | Mae’r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus yn sefydliad a ariennir gan y Llywodraeth. Mae'n benthyca arian i awdurdodau'r heddlu ar delerau penodol fel y gallant brynu eitemau cyfalaf. |
| Partïon Cysylltiedig | Y Llywodraeth Ganolog, Awdurdodau Lleol (praeseptio), is-gwmnïau a chwmnïau cysylltiedig. Aelodau etholedig, uwch swyddogion o lefel Gyfarwyddwr ac uwch, a'r Cronfeydd Pensiwn. Ar gyfer unigolion a nodir fel partïon cysylltiedig: aelodau'r teulu agos, neu aelodau o'r un aelwyd; a phartneriaethau, cwmnïau, ymddiriedolaethau neu endidau eraill y mae gan yr unigolyn, neu aelod o'i deulu agos neu'r un aelwyd, fuddiant rheoli ynddynt. |
| Cronfeydd Wrth Gefn | Balansau sy'n cynrychioli adnoddau a neilltuir at ddibenion fel cronfeydd wrth gefn cyffredinol a rheoli llif arian. Mae cronfeydd wedi'u clustnodi yn cael eu neilltuo at ddibenion polisi penodol. Mae'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn dangos y symudiad yn y flwyddyn ar gronfeydd wrth gefn y Prif Gwnstabl. Sylwer nad yw'r Prif Gwnstabl yn dal Cronfeydd wrth Gefn. Mae'r rhain yn dod dan reolaeth y PCC. |
| Cronfa Ailbrisio | Swm sy'n cynrychioli enillion cronedig asedau sefydlog y Prif Gwnstabl sy'n deillio o gynnydd mewn gwerth, o ganlyniad i chwyddiant a ffactorau eraill, i'r graddau nad yw'r enillion hyn wedi’u colli oherwydd symudiadau dilynol mewn gwerth. Sylwer mai'r PCC sy'n berchen ar yr holl Gronfeydd Wrth Gefn. |
| Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) | Mesur swyddogol lefel gyffredinol chwyddiant fel y'i hadlewyrchir ym mhris manwerthu basged o nwyddau a gwasanaethu, gan gynnwys costau morgeisi, y dreth gyngor a chostau cartref eraill. |
| Cyllideb Refeniw | Amcangyfrif o'r gofynion incwm a gwariant blynyddol sy'n nodi goblygiadau ariannol polisïau Grŵp y PCC a sylfaen y praesept blynyddol i'w godi ar gronfeydd casglu. |
| Grant Cynnal Refeniw (RSG) | Grant cyffredinol gan y Llywodraeth sy'n cefnogi gwariant awdurdodau lleol (gan gynnwys Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd) a’i bennu bob blwyddyn mewn perthynas â lefelau gwariant. |
| Staff Uwch | Gweithiwr cyflogedig sy’n ennill cyflog dros £150,000 y flwyddyn neu o leiaf £60,000 y flwyddyn (wedi'i gyfrifo pro rata ar gyfer gweithiwr cyflogedig rhan-amser) ac sy’n bennaeth dynodedig y gwasanaeth cyflogedig ac yn brif swyddog statudol. Fel arfer, mae’n cynnwys Prif Weithredwr y Comisiynydd a Phrif Swyddogion statudol. |
| Y Cod | Mae'r Cod yn cynnwys canllawiau yn unol ag IFRS, IPSAS a Safonau Cyfrifyddu GAAP y DU. Mae'n nodi'r arfer cyfrifyddu priodol i'w fabwysiadu ar gyfer y Datganiad Cyfrifon er mwyn sicrhau eu bod yn 'cyflwyno'n deg ' sefyllfa ariannol y Cyngor. Mae gan y Cod statws statudol trwy ddarpariaeth Deddf Llywodraeth Leol 2003. |